



Gwerthuso'r Gronfa Buddsoddi ar y Cyd



Ymchwil

Dogfen ymchwil Rhif: 020/2008
Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2008

Gwerthuso'r Gronfa Buddsoddi ar y Cyd

Cynulleidfa	Darparwyr, Ymarferwyr a Gwneuthurwyr Polisi yng Nghymru.
Trosolwg	Amcanion y gwerthusiad hwn yw datblygu'r fframwaith gwerthuso a gwerthuso Cylchoedd Un a Dau o'r Gronfa Buddsoddi ar y Cyd.
Camau i'w cymryd	Dim - er gwybodaeth.
Rhagor o wybodaeth	Dylech anfon unrhyw gwestiynau am y gwerthusiad at: Jackie McDonald Y Tîm Ymchwil a Gwerthuso Llywodraeth Cynulliad Cymru Tŷ'r Afon Bedwas Caerffili, CF83 8WT Ffôn: 01443 663807 E-bost: Research2@wales.gsi.gov.uk
Copiau ychwanegol	Gellir cael copiau ychwanegol yn y cyfeiriad uchod. Gellir cael y ddogfen hon hefyd o wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn: http://new.wales.gov.uk/topics/educationandskills/?lang=cy
Dogfennau cysylltiedig	Canllaw Gwerthuso'r Gronfa Buddsoddi ar y Cyd, sydd i'w weld ar y Tudalennau Gwerthuso yn adran Addysg a Sgiliau y wefan: http://new.wales.gov.uk/topics/educationandskills/research-and-evaluation/124507/CIF-evaluation-guide

Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

Gwerthuso'r Gronfa Buddsoddi ar y Cyd



Adroddiad Terfynol

Gwerthuso'r Gronfa Buddsoddi ar y Cyd

Adroddiad Terfynol



Cyflwynwyd i:

Jackie McDonald
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol
Oes a Sgiliau
Tŷ Afon
Heol Bedwas
CAERFFILI CF83 8WT

CRG Research Ltd
25 Heol y Gadeirlan
CAERDYDD
CF11 9TZ
Ffôn: 029 2034 3218

E-bost: consult@crgresearch.co.uk
www.crgresearch.co.uk

17^{eg} Hydref 2007

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol	1
1. Cyflwyniad.....	4
Trosolwg.....	4
Amcanion CIF.....	4
Nodau ac Amcanion y Gwerthusiad.....	5
Canfyddiadau ac Argymhellion y Gwerthusiad o Gam 1	7
Gwerthusiad o Gam 2.....	8
2. Cronfa Buddsoddi ar y Cyd Cam 2: Trosolwg.....	11
Cyd-destun.....	11
Trosolwg o Brosiectau a Phartneriaethau	12
3. Canfyddiadau gan Hysbyswyr Allweddol	17
Cyflwyniad.....	17
Cyd-destun.....	18
Effeithiau a chanlyniadau.....	20
Materion i'w Hystyried Ymhellach	22
4. Arweinwyr Prosiectau a Phartneriaid CIF: Canfyddiadau Cyfweiliadau	23
Cyflwyniad.....	23
Lefelau Cydweithio cyn CIF	25
Effaith a Chanlyniadau	26
5. Casgliadau ac Argymhellion	30
Cyflwyniad.....	30
Casgliadau	30
Atodiad I:.....	40
Atodiad II:.....	50
Atodiad III:.....	61
Atodiad IV:	68

Crynodeb Gweithredol

Cyflwyniad

Ym mis Ebrill 2006, comisiynwyd CRG Research Ltd gan ELWa gynt (Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Llywodraeth Cynulliad Cymru erbyn hyn) i gyflawni gwerthusiad o'r Gronfa Buddsoddi ar y Cyd (CIF).

Lansiwyd CIF ym mis Mawrth 2005 ac roedd yn rhan integredig o ffrwd Buddsoddi Strategol y System Cynllunio ac Ariannu Genedlaethol. Dyrannwyd tua £15.7 miliwn i CIF mewn dau gam, gan ystyried gwariant cyfalaf a refeniw gyda'i gilydd.

Amcanion y Gwerthusiad

Roedd y gwerthusiad yn cynnwys 12 amcan:

- i. A oedd cyfiawnhad gwreiddiol ('rhesymeg ymyrryd') y Cynllun yn deilwng ac a yw'n berthnasol o hyd
- ii. I ba raddau mae'r Cynllun yn gyffredinol wedi cael ei ddylunio a'i farchnata'n effeithiol ac yn effeithlon, gyda chynigion yn cael eu hasesu, eu cyflwyno a'u rheoli gan LICC
- iii. A dderbyniwyd y cynigion ac, os cawsant eu cymeradwyo, a oeddent yn y meysydd blaenoriaeth hynny a nodwyd gan gorff ELWa gynt ym mhrosiectws CIF
- iv. I ba raddau mae prosiectau CIF yn seiliedig yn ymarferol ar bartneriaethau dysgu gwirioneddol
- v. A yw'r mewnbynnau i'r Cynllun wedi arwain at weithgareddau, allbynnau a chanlyniadau arfaethedig y Cynllun (fel a nodwyd yn Atodlen Reoli 8)
- vi. A yw'r cynllun yn gyffredinol yn cynnig 'gwerth am arian' (h.y. economi - mewnbynnau ar y gost isaf; effeithlonrwydd - cymhareb allbynnau i fewnbynnau; effeithiolrwydd - gwerth allbynnau yn erbyn maint y mewnbynnau
- vii. Lefel, os o gwbl, ychwanegedd, gan ystyried tystiolaeth o ddifuddiant, cyfnewid a dadleoli a grëwyd o ganlyniad i gyflwyno Cynllun CIF
- viii. A yw'r Cynllun wedi cyflawni'i nodau, sef; gwella ansawdd a dewis dysgu ôl-16, gan ddiwallu anghenion a nodwyd gan ddysgwyr yn well; dileu dyblygu diangen a bylchau yn y ddarpariaeth; gwneud y defnydd gorau o adnoddau LICC; a yw'r nodau hyn yn briodol o hyd
- ix. A gafwyd unrhyw effeithiau anfwriadol neu annisgwyl i'r Cynllun
- x. Pa effaith mae prosiectau CIF wedi'i chael ar ddysgwyr, gwaith partneriaeth a dysgu a hyrwyddir

- xi. Pa agweddau ar y rhaglen sydd wedi llwyddo, pa rwystrau a wynebwyd, a beth gellid ei wella
- xii. Gwneud argymhellion ar gyfer ail gam cynllun CIF o ran cynnwys, marchnata, cyflwyno a rheoli'r Cynllun a chydweddu â mentrau datblygol LICC megis Braenaru Daearyddol.

Ymagwedd

Roed y gwerthusiad yn cynnwys dau gam:

- Roedd gwerthusiad Cam 1, a ddechreuodd ym mis Mai 2006, ac a ddaeth i ben ym mis Gorffennaf 2006, yn cynnwys Prosiectau Cam 1.
- Roedd gwerthusiad Cam 2, a ddechreuodd ym mis Gorffennaf 2007, ac a ddaeth i ben ym mis Medi 2007, yn cynnwys Prosiectau Cam 2. Dadansoddwyd yr ariannu ar gyfer Cam 2 i dair elfen: Estyniad CIF 1 , CIF 2, a'r Agenda 15 – 19. Roedd y gwerthusiad yn cynnwys sampl gynrychioliadol o bob math o brosiectau.

Roedd y fethodoleg yn debyg yn fras ar gyfer dau gam y gwerthusiad:

- i. Dechrau
- ii. Dylunio fframweithiau gwerthuso
- iii. Ymchwil ddesg
- iv. Cyfweiliadau gyda Hysbyswyr Allweddol
- v. Cyfweiliadau gydag Arweinwyr Prosiectau
- vi. Cyfweiliadau gyda Phartneriaid y Prosiect (Gwerthuso Cam 2 yn unig)
- vii. Dadansoddi, adrodd a chyflwyno

Canfyddiadau

Roedd y canlyniol ymhlith canfyddiadau allweddol y gwerthusiad:

- Mae CIF wedi galluogi datblygu partneriaethau darparwyr. Lle roedd partneriaethau'n bodoli eisoes maent wedi cael eu cryfhau - mae rhwystrau traddodiadol i gydweithio megis diffyg ffydd yn cael eu goresgyn yn raddol ac mae partneriaid yn dechrau addasu i gryfderau ei gilydd.
- Cyflawnwyd allbynnau a chanlyniadau cydweithio, megis datblygu cwricwlwm, amserlennu ac addysgu ar y cyd, ond ni ellir gweld cynladwyedd hirdymor y gweithgareddau hyn eto ac nid oes tystiolaeth o benderfyniadau 'pendant' eto, e.e. darparwyr yn 'ildio' dysgwyr.
- Er bod prosiectau wedi cyflawni eu hamcanion, mae'n bosib bod eu cynladwyedd hirdymor wedi cael ei gyfaddawdu gan raddfeydd amser byr ar gyfer ymgorffori eu hunain.
- Codwyd materion ynghylch effaith strategol ariannu prosiectau graddfa fach (yn enwedig o ran yr elfennau cyfalaf)

- Yn syml mae'n rhy gynnar meintioli effaith y Cynllun ar ddewis i ddysgwyr a chyflwyno dysgu am nad oedd llawer o weithgareddau'r prosiect wedi dechrau tan y flwyddyn academaidd bresennol. Fodd bynnag byddai tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu y disgwyliwyd niferoedd cynyddol o ddysgwyr a dewis cynyddol yn y rhan fwyaf o'r prosiectau.

Argymhellion

Ar sail y canfyddiadau hyn, mae'r adroddiad yn gwneud nifer o argymhellion i'w hystyried o ran cyflwyno cynlluniau ariannu yn y dyfodol a allai gynnwys hyrwyddo gweithio ar y cyd:

- Dylai APADGOS nodi a lledaenu arfer da o ran cydweithredu, yn enwedig lle gwnaed 'dewisiadau pendant'.
- Bydd APADGOS yn crynhoi nodweddion allweddol y gwaith partneriaeth a ddisgwylir gan ddarparwyr
- Dylid defnyddio modelau gwaith partneriaeth i arwain gwaith pellach i 'brif-ffrydio' gweithio ar y cyd
- Yn y tymor hwy, mae'n bosib y bydd APADGOS am annog datblygu sgiliau rheoli prosiectau lefel uwch ymhlith arweinwyr prosiectau allanol
- Roedd oedi wrth brosesu ceisiadau wedi atal gallu partneriaid i gyflwyno prosiectau yn ôl disgwyliadau. Dylai APADGOS wneud pob ymdrech i sicrhau bod swyddogaethau allweddol yn derbyn adnoddau priodol.

Os ystyrir unrhyw beth y gellid ei gymharu â CIF yn y dyfodol, argymhellwn y canlynol:

- Sicrhau eglurder wrth ddiffinio canlyniadau allweddol (e.e. *'beth yw gweithio ar y cyd?'*)
- Prosesau gwneud penderfyniadau cadarn, gyda'r oedi lleiaf posib
- Pennu paramedrau pendant ar gyfer yr hyn a fydd yn dderbyniol o ran prosiectau/canlyniadau
- Cynnwys themâu trawsbynciol wrth wneud penderfyniadau a monitro
- Ystyried strategaethau gadael a chynladwyedd o'r cychwyn cyntaf
- Yn gyffredinol, cefnogi llai o brosiectau mawr - tebygol o gael effaith fwy yn y tymor hir
- Ymgorffori gofynion ar gyfer canlyniadau pendant o ran profiadau dysgwyr
- Ymgorffori monitro sy'n gymesur â maint y prosiect
- Dylai staff APADGOS 'gadw mewn cysylltiad' â phrosiectau er mwyn mwyaflu dysgu a sicrhau y cedwir yr amcanion allweddol mewn golwg
- Darparu hyfforddiant ar gyfer sicrhau sgiliau rheoli prosiect da ymhlith rheolwyr ynghyd ag arbenigedd monitro priodol o fewn APADGOS.

1. Cyflwyniad

Trosolwg

- 1.1 Comisiynwyd CRG Research Ltd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Ebrill 2006 i werthuso'r Gronfa Buddsoddi ar y Cyd. Lansiwyd y Gronfa ym mis Mawrth 2005, gyda tua £15.7 miliwn wedi'i ledaenu ar draws dau gam ariannu.
- 1.2 Cwblhawyd gwerthusiad CRG o'r cam cyntaf ym mis Medi 2006¹. Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio gwerthusiad yr ail gam ynghyd ag ystyried canfyddiadau ac argymhellion o'r ddau gam er mwyn darparu casgliadau ac argymhellion cyffredinol.

Amcanion CIF

- 1.3 Nod CIF oedd hyrwyddo lefelau uwch o weithio ar y cyd a rhwydweithio ymhlith darparwyr dysgu ôl-16 ac roedd yn rhan integredig o Ffrwd Buddsoddi Strategol y System Cynllunio ac Ariannu Genedlaethol (NPFS).
- 1.4 Amcanion CIF oedd:

- Gwella gwaith partneriaeth a rhwydweithio ymhlith darparwyr ôl-16 er mwyn gwella ansawdd a dewis y dysgu a ddarparwyd ar gyfer dysgwyr;
- Hyrwyddo aildrefnu'r rhwydwaith dysgu ôl-16 drwy fuddsoddi ar y cyd;
- Annog a chefnogi mentrau arloesol a chydweithio rhwng darparwyr; a
- Chefnogi gweithgareddau sy'n cynorthwyo Llywodraeth Cynulliad Cymru i wneud y defnydd gorau o'i hadnoddau a chyflawni ei rhwymedigaethau i:
 - dileu dyblygu diangen a bylchau yn y ddarpariaeth;
 - sicrhau gwerth am arian;
 - osgoi gwariant anghytbwys;
 - sicrhau ymateb i anghenion dysgwyr.

¹Ariannwyd CIF 1 o dan ELWa. Ym mis Ebrill 2006, unwyd ELWa â Llywodraeth Cynulliad Cymru

1.5 Roedd CIF yn cynnwys dau gam ariannu:

- **Cam 1:** gan gynnwys dwy elfen a fu'n ymwneud â 103 o brosiectau:
 - i. Cronfa o £6 miliwn a ofynnodd i Awdurdodau Addysg Lleol (AALI) a Sefydliadau Addysg Bellach (SAB) gyflwyno cynigion ar ran partneriaethau dysgu i ddangos sut y byddent yn defnyddio'r grant a ddyrannwyd
 - ii. Cronfa o £300,000 a dargedwyd yn benodol at brosiectau sy'n hyrwyddo datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg/dwyieithog.

- **Cam 2:** gan gynnwys tair elfen gyda chyfanswm o £8.5 miliwn ar gyfer 76 o brosiectau cyfalaf a refeniw:
 - i. 49 o brosiectau Cam 2 CIF (refeniw £2m; cyfalaf £2.5m)
 - ii. 22 o Brosiectau i'r Agenda 14-19 (Elfennau Ôl-16 yn unig) ar draws pob AALI (refeniw £3m; cyfalaf £1m)²
 - iii. 5 prosiect estyn CIF Cam 1 (£371,832 o arian parhad)

1.6 Dyrannwyd arian dangosol i amrywiaeth o ddarparwyr Ôl-16 (gan gynnwys Awdurdodau Addysg Lleol, Sefydliadau Addysg Bellach a darparwyr Dysgu Oedolion a Chymunedol) ac fe'u gwahoddwyd i gyflwyno cynigion prosiectau a fyddai'n cefnogi gweithgareddau wrth ymateb i set o feini prawf a bennwyd ymlaen llaw.

Nodau ac Amcanion y Gwerthusiad

1.7 Dechreuodd y gwerthusiad ym mis Ebrill 2006 ac fe'i cwblhawyd ym mis Awst 2007. Roedd ei nodau fel a ganlyn:

- i. Datblygu fframwaith gwerthuso sy'n cwmpasu camau un a dau CIF
- ii. Cyflawni'r gwerthusiad interim sy'n ymwneud â Cham 1
- iii. Cyflawni'r gwerthusiad terfynol sy'n cwmpasu Cam 1 a Cham 2

²Darparwyd arian ar gyfer pob un o'r 22 o Rwydweithiau 14-19. Llywiwyd arian i'r AALI (fel prif gorff ariannu) ac fe'i defnyddiwyd i ddatblygu prosiectau oedd yn bodloni nodau'r Rhwydwaith, gan gydweddu â Chynlluniau Blynyddol Datblygu'r Rhwydwaith (ANDP)

1.8 Mae amcanion y gwerthusiad fel a ganlyn:

- xiii. A oedd cyfiawnhad gwreiddiol ('rhesymeg ymyrryd') y Cynllun yn deilwng ac a yw'n berthnasol o hyd
- xiv. I ba raddau mae'r Cynllun yn gyffredinol wedi cael ei ddylunio a'i farchnata'n effeithiol ac yn effeithlon, gyda chynigion yn cael eu hasesu, eu cyflwyno a'u rheoli gan LICC
- xv. A dderbyniwyd y cynigion ac, os cawsant eu cymeradwyo, a oeddent yn y meysydd blaenoriaeth hynny a nodwyd gan gorff ELWa gynt ym mhrosbectws CIF
- xvi. I ba raddau mae prosiectau CIF yn seiliedig yn ymarferol ar bartneriaethau dysgu gwirioneddol
- xvii. A yw'r mewnbynnau i'r Cynllun wedi arwain at weithgareddau, allbynnau a chanlyniadau arfaethedig y Cynllun (fel a nodwyd yn Atodlen Reoli 8)
- xviii. A yw'r cynllun yn gyffredinol yn cynnig 'gwerth am arian' (h.y. economi - mewnbynnau ar y gost isaf; effeithlonrwydd - cymhareb allbynnau i fewnbynnau effeithiolrwydd - gwerth allbynnau yn erbyn maint y mewnbynnau
- xix. Lefel, os o gwbl, ychwanegedd, gan ystyried tystiolaeth o ddifuddiant, cyfnewid a dadleoli a grëwyd o ganlyniad i gyflwyno Cynllun CIF
- xx. A yw'r Cynllun wedi cyflawni'i nodau, sef; gwella ansawdd a dewis dysgu ôl-16, gan ddiwallu anghenion a nodwyd gan ddysgwyr yn well; dileu dyblygu diangen a bylchau yn y ddarpariaeth; gwneud y defnydd gorau o adnoddau LICC; a yw'r nodau hyn yn briodol o hyd
- xxi. A gafwyd unrhyw effeithiau anfwriadol neu annisgwyl i'r Cynllun
- xxii. Pa effaith mae prosiectau CIF wedi'i chael ar ddysgwyr, gwaith partneriaeth a dysgu a hyrwyddir
- xxiii. Pa agweddau ar y rhaglen sydd wedi llwyddo, pa rwystrau a wynebwyd, a beth gellid ei wella
- xxiv. Gwneud argymhellion ar gyfer ail gam Cynllun CIF o ran cynnwys, marchnata, cyflwyno a rheoli'r Cynllun a chydweddu â mentrau datblygol LICC megis Braenaru Daearyddol.

Canfyddiadau ac Argymhellion Gwerthuso Cam 1

1.9 Dechreuodd gwerthusiad Cam 1 ym mis Ebrill 2006 ac fe'i cwblhawyd ym mis Gorffennaf 2006. Yn fras, roedd y rhaglen waith yn cynnwys y canlynol:

- **Dylunio fframwaith gwerthuso** ar gyfer cyflawni gwerthusiad allanol ynghyd â chael ei ddefnyddio gan Lywodraeth y Cynulliad i hunanwerthuso a monitro prosiectau.
- **Ymchwil ddesg** i asesu lefelau gweithio ar y cyd cyn cyflwyno CIF ac adolygu cynigion am brosiectau, rheoli a monitro dogfennau.
- **Cyweliadau personol gyda staff allweddol Llywodraeth Cynulliad Cymru** a fu'n ymwneud â'r Gronfa.
- **Cyweliadau personol a thros y ffôn gyda sampl o 40 o arweinwyr prosiectau** ar draws Cymru

1.10 Roedd canfyddiadau allweddol gwerthuso Cam 1 yn cynnwys y canlynol:

- Mae CIF wedi cael effaith gymedrol yn bennaf oherwydd graddfa fach y prosiectau a therfynau amser llym.
- Mae llawer o ganlyniadau wedi bod yn gynnil ac yn anodd eu meintoli, er enghraifft, mae CIF wedi darparu cyfle i lawer o sefydliadau ddod at ei gilydd i gydweithio ar raddfa helaethaf nac yn y gorffennol.
- Mae rhoi prosiectau ar waith wedi bod yn anodd oherwydd graddfeydd amser llym.
- Yn gyffredinol, gwelwyd diffyg eglurder yn amcanion y gronfa a'i bod yn cael ei monitro'n ormodol. Fodd bynnag, gwelwyd bod rheolaeth leol a chefnogaeth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru'n adeiladol iawn.
- Roedd y mwyafrif o'r prosiectau'n seiliedig ar sail resymegol gadarn a meysydd o angen a nodwyd, ac maent wedi bodloni'r amcanion a bennwyd ar gyfer y gronfa.
- Yn gyffredinol roedd partneriaethau cydweithio'n llwyddiannus, ond roeddent yn wynebu rhwystrau megis diffyg ffydd rhwng partneriaid a chyfyngiadau amser.
- Mae pryderon wedi codi ynghylch cynaladwyedd prosiectau a phartneriaethau sylfaenol - yn enwedig o ran argaeledd arian parhad.

1.11 Ymhlith nifer o argymhellion i'w hystyried ar gyfer cyflwyno CIF, ynghyd â chynlluniau ariannu eraill, yn y dyfodol oedd y canlynol:

- Mae angen i arian gael ei ffocysu ar ganlyniadau blaenoriaeth clir (e.e. gwella dewis, lleihau cystadleuaeth) ac mae'n rhaid i ofynion o ran prosiectau fod yn fwy eglur. Gallai hyn arwain at brosesau rheoli a monitro mwy tryloyw a llai ymdrechgar.
- Mae angen rhoi pwyslais ar gydweithio strategol tymor hwy a **gallai** hyn arwain at nifer llai o brosiectau mwy.
- Mae angen i brosiectau dderbyn amser ar gyfer cam '*gweithio i fyny*' er mwyn sicrhau bod ystyried amcanion hirdymor yn cael ei ymgorffori mewn prosiectau, gan arwain at fwy o brosiectau strategol a chynaliadwy.

Gwerthuso Cam 2

1.12 Dechreuodd gwerthusiad Cam 2 ym mis Mehefin 2007 a chwblhawyd casglu'r data yng nghanol mis Awst 2007. Roedd elfennau allweddol y fethodoleg a'r rhaglen waith yn cynnwys:

Ymchwil Ddesg

1.13 Roedd y cam hwn yn cynnwys adolygiad a dadansoddiad o ddogfennaeth electronig y prosiect ac amrywiaeth o ffurflenni cau. Adolygwyd data perthnasol o Gam 1 a dychwelwyd at yr adolygiad polisïau a llenyddiaeth i weld a adroddwyd am unrhyw ddatblygiadau pellach ynglŷn â mentrau dysgu cydweithio yng Nghymru.

Cyfweliadau â Hysbyswyr Allweddol

1.14 Cynhaliwyd cyfweliadau personol a thros y ffôn gyda'r canlynol (gweler Atodiad I am Ganllawiau Pynciau):

- Uwch Reolwr Buddsoddi Strategol
- Pennaeth Dysgu Dwyieithog
- Saith Uwch Reolwr Dysgu a Datblygu Rhwydweithiau
- Uwch Reolwr Polisïau Dysgu

Cyfweliadau ag Arweinwyr Prosiectau

1.15 Ceisiodd y broses ymgynghori gynnal cyfweliadau personol a thros y ffôn gydag Arweinwyr Prosiectau hyd at darged o 40 o brosiectau (mae'n anochel bod rhai arweinwyr prosiectau wedi rheoli mwy nag un prosiect). Gofynnwyd i Reolwr Dysgu a

Datblygu Rhwydweithiau awgrymu enghreifftiau o brosiectau 'diddorol'. Dyluniwyd y sampl i adlewyrchu dadansoddiad rhanbarthol o brosiectau fel a ganlyn:

Ffigur 1: Dadansoddiad o Amserlen Darged ar gyfer Cyfweiliadau

Rhanbarth	Cyfanswm y Prosiectau Cam 2	Maint y Sampl	Cyfanswm Prosiectau'r Agenda 14-19	Maint y Sampl	Cyfanswm y Prosiectau Estyn CIF1	Maint y Sampl
De-ddwyrain Cymru	17	10	10	5		
Gogledd Cymru	15	8	6	3	2	
De-orllewin Cymru	11	6	4	2	1	
Canolbarth Cymru	6	3	2	1	1	1
Cymru Gyfan					1	1
Cyfanswm	49	27	22	11	5	2

- 1.16 Cynhaliodd CRG gyfweiliadau â **29** o Arweinwyr Prosiectau ynghylch **39** o brosiectau. Rhwystrwyd ymdrechion i gysylltu ag Arweinwyr Prosiectau gan y ffaith bod y gwerthusiad yn digwydd ar yr un pryd â diwedd y flwyddyn academiaidd, gan olygu bod cysylltiadau naill ai ar eu gwyliau neu'n honni eu bod yn rhy brysur i siarad â ni. Methodd nifer o gysylltiadau'n lân â dychwelyd ein galwadau ffôn neu e-byst, a gwnaed pob ymdrech i amnewid y cysylltiadau hyn, ond yn y pen draw roeddem wedi cyrraedd pen y rhestr.
- 1.17 Mae'r tabl isod yn dangos y dadansoddiad o'r cyfweiliadau prosiect a gwblhawyd. Mae'r gwyradau bach o'r dadansoddiad daearyddol a math o brosiect a dargedir oherwydd bod rhai Arweinwyr Prosiectau'n gyfrifol am fwy o brosiectau nag yr oeddem wedi'i dybio i ddechrau ac oherwydd yr oedd rhaid i ni ychwanegu at y sampl pan ddaethpwyd i ben rhestri cysylltiadau mewn rhai ardaloedd.

Ffigur 2: Dadansoddiad a gyflawnwyd o Gyfweiliadau Prosiect

Rhanbarth	Cyfweiliadau Prosiectau Targed CIF 2	Cyfweiliadau a Gyflawnwyd	Cyfweiliadau Targed Prosiect 14-19	Cyfweiliadau a Gyflawnwyd	Cyfweiliadau Targed Estyn CIF 1	Cyfweiliadau a Gyflawnwyd
De-ddwyrain Cymru	10	9	5	4		
Gogledd Cymru	8	9	3	4	2	
De-orllewin Cymru	6	6	3	1	1	
Canolbarth Cymru	3	3			1	1
Cymru Gyfan					1	1
Cyfanswm	27	28	11	9	2	2

1.18 Fel y bydd y trosolwg o'r canfyddiadau dechreuol yn ei ddangos nes ymlaen, gan mwyaf nododd y rhan fwyaf o Arweinwyr Prosiectau eu bod yn wynebu problemau tebyg: er bod ein sampl ychydig yn llai na'r hyn a gynlluniwyd, credwn o hyd ein bod wedi llwyddo i gwmpasu amrywiaeth dda o brosiectau - fesul gweithgaredd a fesul math o ariannu.

1.19 Gellir dod o hyd i Ganllawiau Pynciau a rhestr o'r prosiectau sydd wedi'u cynnwys yn y sampl yn Atodiadau II a IV yn ôl eu trefn.

Cyfweiliadau â Phartneriaid Prosiectau

1.20 Yn dilyn sesiynau briffio cychwynnol gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru, cytunwyd y gallai fod yn ddefnyddiol cysylltu â phartneriaid prosiectau er mwyn dod o hyd i wybodaeth bellach ynghylch y partneriaethau cydweithio. Gofynnwyd i'r holl Arweinwyr Prosiectau awgrymu Partneriaid Prosiectau i gyfweild â hwy (gweler Atodiad III am Ganllawiau Pynciau). Cynhaliwyd cyfweiliadau ag wyth o Bartneriaid Prosiectau - eto, profwyd rhai anawsterau wrth gysylltu â phartneriaid oherwydd amseriad y gwerthusiad, ond taflwyd goleuni ar beth deunydd defnyddiol ychwanegol.

2. Cam 2 y Gronfa Buddsoddi ar y Cyd: Trosolwg

Cyd-destun

Datblygiad yr Agenda Gweithio ar y Cyd

- 2.1 Mae ymateb ar y cyd i anghenion dysgwyr wedi bod yn flaenllaw ar agenda newid addysgol Cymru ers o leiaf 1999, pan nododd y '*Cynllun Gweithredu Hyfforddiant Addysg*'³ (ETAP) egwyddor cydweithio rhwng darparwyr fel modd o gyflawni darbodion cwmpas a maint a sicrhau defnydd mwy effeithiol o adnoddau a gwell dewis i ddysgwyr. Mae'r strategaeth hon wedi cael ei phwysleisio mewn dogfennau polisi dilynol: '*Y Wlad sy'n Dysgu* (2001); '*Y Wlad sy'n Dysgu, Llwybrau Dysgu 14-19*' (2003); a '*Chynllun Gweithredu 14-19*' (2003).
- 2.2 Nid yw canolbwyntio ar weithio ar y cyd wedi'i gyfyngu i sector addysg a hyfforddiant Cymru, ac yn '*Creu'r Cysylltiadau*'⁴, disgrifiodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei hymroddiad i weithio ar y cyd o fewn gwasanaethau cyhoeddus ar draws pob adran, gan nodi, "*drwy gydweithio, gall sefydliadau wneud y defnydd gorau o adnoddau arbenigol, goresgyn problemau o ganlyniad i allu cyfyngedig a darparu gwasanaeth integredig sy'n canolbwyntio ar y dinesydd*"⁵.

Y System Cynllunio ac Ariannu Genedlaethol

- 2.3 Lanswyd CIF ym mis Mawrth 2005 gyda chyllideb gychwynnol o £6m i gefnogi ymdrechion ELWa⁶ i annog gweithio ar y cyd rhwng addysg ôl-16 a darparwyr addysg. Roedd CIF yn elfen integredig o Ffrwd Buddsoddi Strategol y System Cynllunio ac Ariannu Genedlaethol (NPFS) (y ffrydiau eraill oedd Darpariaeth Ddysgu, Cefnogi Dysgwyr a Darpariaeth a Gomisiynir gan Ddysgwyr). Mae gan NPFS y rôl bwysig gyffredinol o helpu i foderneiddio'r rhwydwaith dysgu ôl-16. Bydd elfen gynllunio'r NPFS yn cryfhau'r cyswllt rhwng anghenion dysgu a chyflwyno dysgu a bydd yr elfen

³Grŵp Gweithredu Addysg a Hyfforddiant Cymru (1999) Cynllun Gweithredu Hyfforddiant Addysgol, Y Swyddfa Gymreig, Caerdydd

⁴Llywodraeth Cynulliad Cymru (2004) Creu'r Cysylltiadau: Cyflwyno Gwasanaethau Cyhoeddus Gwell yng Nghymru - Gweledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Caerdydd

⁵ibid (t.19)

⁶Ym mis Ebrill 2006, unwyd ELWa â Llywodraeth Cynulliad Cymru, ac mae ei weithgareddau wedi parhau o dan gylch gwaith yr Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau a'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) yn ôl eu trefn.

ariannu'n sicrhau bod ysgolion, colegau a darparwyr hyfforddiant yn cael eu hariannu ar sail gyfartal. Cynllunnir y system i arwain at:

- fwy o ddewis i ddysgwyr;
- canolbwyntio'n fwy ar ddysgu o safon;
- llai o gystadlu gwastraffus ymhlith darparwyr;
- gwell gwerth am arian trethdalwyr; a
- chynnydd pellach yn nifer y bobl sy'n ymwneud â dysgu yng Nghymru⁷.

2.4 Lanswyd CIF yn dilyn cyfres o gynadleddau a gynhaliwyd yn ystod mis Rhagfyr 2004, gyda'r nod o annog cydweithio ymhlith darparwyr addysg a hyfforddiant ôl-16. Mae'r ymagwedd gydweithio wedi mynd yn offeryn y cyfeirir ato'n aml sy'n gallu helpu i fodloni'r galw cynyddol gan ddysgwyr. Yn ddiweddar mae wedi mynd yn gynyddol amlwg na all sefydliadau weithio ar eu pennau eu hunain bellach os ydynt am ddiwallu anghenion dysgwyr.

2.5 Roedd Cam 1 y Gronfa'n gofyn i Awdurdodau Addysg Lleol, sefydliadau Addysg Bellach ac ysgolion gydweithio (neu gyda darparwyr dysgu eraill) i gyflwyno cynllun cydweithio sy'n bodloni anghenion lleol, megis sgiliau i'r gweithlu, e-ddysgu, cyfrwng Cymraeg, dysgu cymunedol, dysgu anffurfiol a datblygu sgiliau sylfaenol. Ar ben hynny, mae CIF yn ceisio annog Cynlluniau sy'n gwella ansawdd y dysgu, gwella cyfleusterau, ehangu dewis, hyrwyddo cyfle cyfartal neu alluogi ymchwil i ddymuniadau dysgwyr lleol⁸.

Trosolwg o Brosiectau a Phartneriaethau

Trosolwg o Brosiectau

2.6 Ariannwyd 76 o brosiectau gan ail gam CIF, wedi'u dadansoddi fel a ganlyn:

- 49 o Brosiectau Cam 2 CIF
- 22 o Brosiectau 14 – 19
- 5 Prosiect Estyniad CIF

⁷ ELWa (2006) Y System Cynllunio ac Ariannu Genedlaethol: Canllaw, ELWa, Caerdydd

⁸ ELWa (2005) 'Buddsoddi mewn Maes Newydd o Gydweithredu', Datganiad i'r Wasg, www.elwa.org.uk/ElwaWeb/elwa.aspx?pageid=4053

- 2.7 Yn aml, un o nodweddion prosiectau Cam 2 a 14-19 yw y byddai ganddynt nifer o elfennau a oedd yn cyflwyno amrywiaeth o weithgareddau, mewn rhai achosion byddai'r Prosiect Cam 2 yn cydweddu â gweithgareddau'r prosiect 14-19 ac i'r gwrthwyneb.
- 2.8 Yn aml roedd prosiectau Cam 2 a 14-19 yn cyflwyno gweithgareddau tebyg, y rhoddir manylion bras amdanynt ynghyd ag enghreifftiau o rai prosiectau isod:

Gwella Dewisiadau/Profiad Dysgwyr

- 2.9 Roedd y mwyafrif helaeth o'r prosiectau'n ymwneud â gwella dewisiadau/profiad dysgwyr ac roedd llawer o'r rhain yn defnyddio e-ddysgu neu fideo-gynadledda, a chaiff y rhain eu trafod ar wahân nes ymlaen. Roedd prosiectau eraill yn defnyddio arian i estyn dewis neu wella profiadau drwy amrywiaeth o foddau:

- Ariannodd Prosiect CIF 2 Coleg Glannau Dyfrdwy Ganolfan 6^{ed} Dosbarth Consortiwm Safon A a ddarparodd ardal astudio un pwrpas gyda chyfarpar TG ar gyfer myfyrwyr o ysgolion y consortiwm.
- Targedodd prosiect CIF 2 AALI Caerffili y rheiny nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET) gyda'r nod o'u hannog i ailymuno ag addysg brif-ffrwd drwy weithio gyda gweithwyr ieuencid a chynnig cyrsiau rhagflas mewn colegau lleol.
- Ariannodd Prosiect 14-19 Cyngor Caerdydd sefydlu cyfleuster paentio ac addurno mewn ysgol uwchradd leol (sy'n gysylltiedig â'r coleg lleol) a datblygu rhith amgylchedd dysgu cynhyrchu.

E-ddysgu

- 2.10 Mae enghreifftiau o elfennau e-ddysgu sy'n ymddangos mewn llawer o weithgareddau'r prosiectau, ac yn benodol, sefydlu Rhith Amgylcheddau Dysgu, yn cynnwys

- Prosiect CIF 2 Coleg Meirion Dwyfor a ddarparodd gyrsiau ar-lein, tiwtora un i un ar gyfer busnesau lleol a chyfleusterau tiwtora un i un a chyfleusterau e-ddysgu mewn lleoliadau cymunedol.
- Roedd datblygu Amgylchedd Dysgu Deinamig Gwrthrych Gyfeiriedig Modiwlaid (MOODLE) neu pyrth ar y we hefyd yn weithgareddau prosiect cyffredin - datblygodd prosiect CIF 2 Coleg Ystrad Mynach MOODLE er mwyn i ysgolion a cholegau lleol hygyrchu deunyddiau dysgu ar y cyd mewn nifer o feysydd a nodwyd yn y datganiad Rhanbarthol o Anghenion a

Blaenoriaethau.***Fideo-gynadledda***

2.11 Roedd datblygu cyfleusterau fideo-gynadledda mewn ysgolion yn weithgareddau prosiect cyffredin ac roedd llawer o'r rhain yn ymwneud â Darparwyr Ôl-16 yn datblygu systemau integredig i alluogi amserlennu ar y cyd. Er enghraifft, defnyddiodd AALI Gwynedd CIF ac arian 14-19 i weithio gyda darparwyr (ysgolion a cholegau) yn y sir i ddatblygu fideo-gynadledda fel cymorth i sefydlu gwersi rhyngweithiol ar gyfer y Fagloriaeth Gymreig.

Addysg Oedolion a Chymunedol

2.12 Roedd prosiectau Dysgu Oedolion a Chymunedol yn ymwneud ag amrywiaeth o weithgareddau, er enghraifft:

- Ffurfiodd Coleg Iâl bartneriaeth â chyflogwyr ac undebau llafur lleol i hyrwyddo hyfforddiant sgiliau sylfaenol yn y gweithle (CIF 2).
- Cyflawnodd Coleg Glannau Dyfrdwy waith paratoadol ar gyfer fframwaith arolygu cyffredin addysg oedolion a chymunedol, gan gynnwys cyrsiau RhAD cymunedol, arolwg ffug, sesiynau rhagflas, datblygu staff a chronfa ddata iechyd a diogelwch ar gyfer yr holl ganolfannau dysgu cymunedol (CIF 2).
- Roedd prosiect Cyngor Sir Penfro'n cynnwys datblygu fframwaith o safon ac adnodd gwybodaeth ar-lein a rennir ar gyfer tiwtoriaid Dysgu Oedolion a Chymunedol (DOCh) yn y sir (CIF 2).

Braenaru Daearyddol

2.13 Wedi'i lansio yn 2004, cyflwynwyd Braenaru Daearyddol hefyd fel rhan o ymgyrch i foderneiddio a chefnogi darpariaeth ddysgu, gan weithio tuag at Agenda Llwybrau Dysgu 14-19 Llywodraeth Cynulliad Cymru. Yn gweithredu fel elfen allweddol arall o fewn y System Cynllunio ac Ariannu Genedlaethol, disgwylir i bob Cynllun Braenaru gyflawni adolygiad manwl o ddarpariaeth ddysgu o fewn ardal ddiffiniedig, gan ymdrin â ffurf cyflwyno dysgu ym mhob ardal a chan arwain at ymgynghori ffurfiol ar argymhellion, ac ar ôl hynny bydd Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio gyda rhanddeiliaid i roi opsiynau cymeradwy ar waith.

- 2.14 Yr egwyddorion sylfaenol allweddol yw cydweithio, cydlyniad ac ymatebolrwydd. Gwelir cydweithio fel ffordd o sicrhau dewis, ansawdd ac ymatebolrwydd blaengar i anghenion dysgwyr. Bydd hyn yn gofyn am *"symud esiampl a diwylliant y sail darparwr presennol o fframwaith digyswllt a gorgystadleuol tuag at un o wir rwydwaith – cydgysylltiedig, cydweithredol ac yn gweithio i gydweledigaeth"*⁹.
- 2.15 Dewiswyd chwe ardal ar gyfer Cynlluniau Braenaru Daearyddol: Merthyr Tydfil, Blaenau Gwent, Rhondda Cynon Taf, Cwm Dyfi, Coridor Menai yng Ngwynedd/Ynys Môn a Sir Benfro. Dewiswyd yr ardaloedd hyn hefyd i adlewyrchu trawsdoriad o ranbarthau Cymru, gan gynnwys ardaloedd trefol, gwledig a'r cymoedd diwydiannol.
- 2.16 Daeth ymarferion ymgynghori ym mhob un o'r Cynlluniau Braenaru i ben ar ddiwedd mis Chwefror 2006 (ac eithrio Gwynedd ac Ynys Môn, a ddaeth i ben ym mis Chwefror 2007). Erbyn hyn mae'r Cynlluniau Braenaru'n dechrau datblygu eu strategaethau a'u rhoi ar waith.

Tystiolaeth o gydweithio

- 2.17 Mae adroddiad 2006 Estyn, *'Cydweithio rhwng ysgolion â chweched dosbarth a Cholegau Addysg Bellach i gyflwyno darpariaeth hyblyg o ansawdd uchel sy'n ehangu dewis ac yn sicrhau gwerth am arian'*¹⁰ yn adeiladu ar waith blaenorol a gyflawnwyd yn y maes hwnnw ac yn ymchwilio i sut a pham mae ysgolion a SAB yn cydweithio, pa ffactorau sy'n hyrwyddo neu'n rhwystro eu hymdrechion ac effeithiolrwydd mathau gwahanol o gydweithio. Mae hefyd yn cynnwys rhai casgliadau cynnar ynghylch effaith CIF ar gydweithio¹¹.
- 2.18 Mae'r prif ganfyddiadau'n dangos faint o waith y bydd ei angen i adeiladu cydweithio effeithiol. Yn fyr, nododd yr adroddiad fod 36% yn unig o ysgolion â chweched dosbarthiadau yng Nghymru'n cydweithio â SAB, ond lle ceir cydweithio, ymddengys bod gan ysgolion fwy i ennill o ran medru cadw mwy o ddysgwyr. Yn bennaf mae cydweithredu wedi bod ar ffurf darparu cyrsiau Safon A ar y cyd; ond gwelwyd ychydig iawn o gydweithio o ran opsiynau galwedigaethol cyfrwng Cymraeg. Ceir cydnabyddiaeth bod CIF wedi arwain at weithgarwch cydweithio newydd, ond mae Adroddiad Estyn yn amlygu peth ansicrwydd ynghylch cynaladwyedd y gweithgareddau ar ôl i'r arian ddod i ben.
- 2.19 Mae'r adroddiad hefyd yn nodi nifer o resymau pam nad yw gweithio ar y cyd wedi digwydd rhwng ysgolion a SAB mewn rhai achosion. Mae'r rhain yn cynnwys:

⁹ <http://www.elwa.ac.uk/elwaweb/elwa.aspx?pageid=3659>

¹⁰ Estyn (2006) Cydweithio rhwng ysgolion â chweched dosbarth a Cholegau Addysg Bellach i gyflwyno darpariaeth hyblyg o ansawdd uchel sy'n ehangu dewis ac yn sicrhau gwerth am arian', Estyn, Caerdydd

¹¹ Am fod yr adroddiad hwn wedi cael ei gyhoeddi cyn i lawer o brosiectau Cam 1 ddod i ben, teimlwn nad oes modd iddo gynnig barn 'gyfannol' am effaith prosiectau o'r fath

anawsterau trefnu cludiant o ran amser a chostau; cystadlu am ddysgwyr a diffyg ffydd rhwng partneriaid; dymuniad llawer o ysgolion i gynnal eu chweched dosbarthiadau er mwyn cadw niferoedd myfyrwyr a staff; a diffyg corff strategol i gynllunio darpariaeth ar draws ardal ddaearyddol. Ar ben hynny, mae mecanweithiau ariannu presennol yn darparu rhwystrau i gydweithio: mae ffrydiau ariannu gwahanol ar gyfer darpariaeth cyn ac ôl-16, ac mae'r *"fffaith nad yw Rhwydweithiau Ardal Lleol 14-19 yn rheoli arian craidd yn rhwystrau i fwy o gydweithio"*¹².

¹² t.4 Estyn (2006)

3. Casgliadau Allweddol gan Hysbyswyr

Cyflwyniad

3.1 Ymgynghorwyd ag amrywiaeth o Swyddogion APADGOS ar draws Cymru ar gyfer gwerthusiadau Cam 1 a Cham 2 ynghylch eu barn am ddylunio, cyflwyno a rheoli CIF a'r 'ffordd ymlaen' o ran cynlluniau tebyg yn y dyfodol.

3.2 Roedd canfyddiadau gwerthusiadau Cam 1 y grŵp hwn o hysbyswyr yn cynnwys y canlynol:

- Roedd sail resymegol CIF wedi'i chyfiawnhau - mae darpariaeth ddysgu ar y cyd wedi cael ei rhwystro yn y gorffennol gan hunandiddordeb a chystadlu rhwng darparwyr, ac ystyriwyd bod CIF yn cynnig cefnogaeth wirioneddol ar gyfer cyflawni nodau atyniadol ehangach o ran rhesymoli, arbenigo ac effeithiolrwydd cyffredinol mewn darpariaeth ddysgu.
- Ystyriwyd bod CIF 1 wedi cael ei lansio'n rhy gyflym gyda meini prawf cymhwyster a oedd yn rhy llac.
- Roedd CIF 1 wedi helpu i wneud cynnydd o ran cyflwyno cyfleoedd dysgu ar y cyd, ond mynegwyd pryderon ynghylch pa mor gynaliadwy y byddai'r gweithgareddau hyn ar ôl i ariannu ddod i ben.
- Roedd cydnabyddiaeth helaeth bod CIF wedi rhoi cymhelliant strategol i ddarparwyr gydweithio, ond cydnabuwyd hefyd bod tipyn o ffordd i fynd o hyd.
- Ystyriwyd bod angen arian pellach i ymgorffori'r newidiadau i ddewis ac ansawdd ar gyfer dysgwyr
- Roedd yr awgrymiadau ar gyfer datblygiadau'r dyfodol yn cynnwys: ffocws mwy tynn ar ganlyniadau blaenoriaeth sy'n fwy eglur; ystyriaeth gynyddol o brosiectau strategol hirdymor yn hytrach na gweithrediadau '*unigol*'; a rhoi mwy o amser i '*lunio*' prosiectau.

3.3 Bydd gweddill yr adran hon yn cyflwyno'r canfyddiadau a'r materion sydd wedi codi o ymgynghoriad Cam 2 gyda Swyddogion APADGOS.

Cyd-destun

Sail resymegol

- 3.4 Ystyrir bod sail resymegol gwreiddiol CIF yn parhau i fod yn berthnasol; i rai swyddogion mae'n sefyll allan fel cynllun pwysig mewn amgylchedd ariannu sy'n *"annog cystadleuaeth"*.

Dylunio

- 3.5 Roedd barn ynghylch dyluniad prosiectau CIF 2 yn gymysg. Amlygodd un swyddog y ffaith fod rhwydweithiau dysgu mewn camau datblygu gwahanol a bod hyn, o bosib, wedi dylanwadu ar ddyluniad y prosiectau. Ystyriwyd bod y rhan fwyaf o'r prosiectau wedi'u dylunio'n dda ac yn seiliedig ar anghenion a nodwyd, gyda'r *"ethos partneriaeth mewn cof a chydweithredu a ymgorfforwyd"*. Amlygwyd prosiectau fideo-gynadledda ym Mhowys a Cheredigion fel enghreifftiau da o ymateb i angen a nodwyd er mwyn darparu dewis ar gyfer dysgwyr; cyflawnwyd astudiaeth ddichonoldeb i ddarparu tystiolaeth a chwmpas y prosiect cyn i'r arian gael ei ddyrannu. Ystyriwyd bod y prosiectau hyn yn enghreifftiau da o gyfuno arian CIF ac arian yr Agenda 14-19 i ddarparu cyfarpar mewn ysgolion a hyfforddiant i'r coleg.
- 3.6 Ni ystyriwyd bod pob prosiect wedi cael ei ddylunio'n dda, a theimlodd rhai swyddogion fod rhai prosiectau wedi cael eu rhoi at ei gilydd o fewn graddfa amser fer er mwyn tynnu'r arian i lawr yn hytrach na'u hystyried yn ddigonol. Mewn rhai achosion, arweiniodd hyn at ddiffyg ymgynghori rhwng rhanddeiliaid o fewn sefydliad o ran dyluniad y prosiect ac, yn ei dro, roedd hyn wedi cyfaddawdu cynllunio costau a maint y cydweithio.
- 3.7 Codwyd pryderon ynghylch pa mor strategol yr oedd elfennau cyfalaf y prosiectau: *"nid oedd digon o arian cyfalaf neu amser i gyflawni newid strategol"*. Teimlodd un swyddog â chylch gwaith Cymru gyfan fod y rhan fwyaf o'r gwariant cyfalaf wedi ariannu cyfarpar *"nad oedd yn wariant strategol nac effeithiol"*.

Proses Asesu

- 3.8 Teimlodd nifer o gyfweleion fod llawer o wersi wedi'u dysgu o CIF 1 a bod y broses asesu prosiectau CIF 2 wedi cael ei dylunio i sicrhau gwell cysondeb wrth ymdrin â chynigion ar draws Cymru. Caniataodd prosiectws 'mwy tynn' ynghyd â sefydlu panel asesu Cymru Gyfan i gynrychiolwyr rhanbarthol wrando ar farn ynghylch yr holl

brosiectau, gan sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn fwy cyson ar draws rhanbarthau.

- 3.9 Ymdriniwyd â'r broses trin asesiadau ar gyfer prosiectau'r Agenda 14-19 ar sail ranbarthol i ddechrau, gyda phrosiectau wedyn yn cael eu cymeradwyo gan Banel Cymru gyfan. Teimlodd nifer o swyddogion y cafwyd anghysondebau gwneud penderfyniadau, gan arwain at gynigion tebyg yn cael eu gwrthod mewn rhai rhanbarthau a'u derbyn mewn rhanbarthau eraill. Er yr ystyriwyd i bob pwrpas mai *"problem ffiniol"* oedd hyn, cytunwyd yn y dyfodol y dylid cyfathrebu'n well â staff ynghylch y cwmpas ar gyfer gwahaniaethau derbyniol mewn ymagweddau rhanbarthol.
- 3.10 Mynegwyd pryderon ynghylch diffyg ymgynghori â'r tîm dysgu dwyieithog (thema drawsbynciol Llywodraeth Cynulliad Cymru) yn y cam datblygu'r prosiectws ac asesu a nododd un Swyddog â chylch gwaith Cymru gyfan *"na chafwyd digon o ymgynghori ar y strategaeth ddwyieithog: mae perygl gwirioneddol na fydd y strategaeth yn symud ymlaen os na ymgynghorir ag arbenigwyr"*.
- 3.11 Amlygodd nifer o swyddogion diffyg ymgynghori rhai prosiectau â Rhwydwaith Fideo Cymru (WVN) a Chymdeithas Rhwydweithio Addysg ac Ymchwil y DU ynghylch prynu cyfarpar fideo-gynadledda. Mae model prynu canolog ar gyfer sefydliadau AB ac AU wedi bod ar waith ers 2002 i sicrhau bod yr holl gyfarpar fideo-gynadledda a brynwyd yn cydweddu â'i gilydd a bod WVN yn gyfarwydd â'r systemau er mwyn darparu cynnal a chadw a chefnogaeth. Cafodd APADGOS ei synnu gan nifer y darparwyr a benderfynodd i gyflawni prosiectau fideo-gynadledda ac roedd WVN yn ei chael hi'n anodd o ran ei allu i ymateb. O ganlyniad i hyn, teimlodd rhai swyddogion na roddwyd cyngor digon amserol i brosiectau o ran prynu cyfarpar sy'n cydweddu â WVN, gan olygu, o bosib, eu bod wedi prynu cyfarpar nad yw'n cydweddu.

Oedi wrth dderbyn hysbysiad o ariannu

- 3.12 Roedd oedi o ran derbyn hysbysiad am ariannu ar gyfer prosiectau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru - gan olygu bod dechrau rhai prosiectau wedi cael ei ohirio am hyd at dri mis - yn broblem a amlygwyd yn aml yn y cam ariannu CIF hwn. Fel y mae canfyddiadau'r Cyfweiliadau ag Arweinwyr a Phartneriaid Prosiectau'n eu nodi yn yr adran nesaf, oedi wrth gael gwybod am ariannu oedd yr achos sengl mwyaf o gwynion ynghylch gweinyddu a chyflwyno CIF.

Effeithiau a chanlyniadau

Prosiectau llwyddiannus

- 3.13 Gallai fod angen safbwynt tymor hwy i gaffael asesiad cywir o effaith CIF ar ddarpariaeth, dewis ac ansawdd i ddysgwyr. Ystyrir yn gyffredinol bod ymgorffori a phrif-ffrydio prosiectau yn hanfodol o ran gwella darpariaeth i ddysgwyr, ac mae'n rhy fuan i asesu lefel yr ymgorffori a fydd yn dod i'r amlwg yn yr hirdymor.
- 3.14 Nododd nifer o swyddogion mai'r prosiectau mwyaf llwyddiannus oedd y rheiny lle roedd yr holl bartneriaid yn deall ac yn ymrwmo i'r nodau a'r amcanion strategol perthnasol. Amlygwyd prosiect manwerthu CIF 2 Coleg Iâl fel enghraifft o brosiect a aliniodd hefyd â lleoli manwerthu fel blaenoriaeth isranbarthol. Roedd y prosiectau gwell hefyd yn gysylltiedig â phartneriaethau sefydledig.
- 3.15 Yn gyffredinol, teimlodd cyfweleion na fyddai'r rhan fwyaf o'r gweithgareddau a ddarparwyd gan CIF wedi digwydd heb yr arian: *"mae arian yn ysgogiad pwysig"*.
- 3.16 Yn yr hirdymor, gobeithiodd un Swyddog fod y prosiectau wedi peri i ddarparwyr sylweddoli *"nad ydynt yn berchen ar y dysgwr - mae'n rhaid i'r dysgwr gael mwy nag un darparwr"* a bod dysgwyr *"yn edrych yn fwy i'r tu allan, heb dderbyn yr hyn sydd ar eu carreg drws yn unig"*.

Cydweithio: Llwyddiant a rhwystrau

- 3.17 Ni ddiffiniwyd yr hyn a olygir gan gydweithio'n fanwl a gadawyd llawer i ddehongliad partneriaethau prosiectau unigol. Cydnabyddodd swyddogion APADGOS bod angen rhoi ystyriaeth bellach i bartneriaethau gweithio ar y cyd.
- 3.18 Amlygwyd Powys fel ardal lle mae'r ddau ffrwd ariannu CIF a dynnwyd i lawr gan y Coleg a'r AALI wedi arwain at ddau brosiect cyfatebol sy'n galluogi darparwyr i *"gydweithio'n fwy"* ym mhrosiect y rhwydwaith fideo-gynadledda.
- 3.19 Ystyriwyd hefyd bod cydweithio wedi'i rwystro gan hierarchaeth sefydliadol: *"mae cydweithio'n gwella pan ddaw'r swyddogion datblygu'r cwricwlwm at ei gilydd - mae ganddynt fwy o ddiddordeb mewn dysgwyr yn hytrach na'r ddelwedd o'r sefydliad sydd o bwys i brifathrawon a phenaethiaid"*.

- 3.20 Mewn rhai ardaloedd, er y cafwyd cydweithio, mynegodd rhai swyddogion bryderon nad oedd yr ethos y tu ôl iddo *"yn alinio'n gyfan gwbl â nodau CIF i estyn dewis i ddysgwyr a lleihau dyblygu."*
- 3.21 Teimlodd rhai Swyddogion y ceir rhwystrau i gydweithio o hyd - yn bennaf mewn perthynas â diwylliannau unigol darparwyr gwahanol, yn enwedig mewn ysgolion sydd bob amser wedi gweithio ar eu pennau eu hunain yn y gorffennol. Er enghraifft, mewn rhai rhannau o Gymru, adroddwyd nad yw ysgolion, o bosib, yn barod i gydweithio gyda'i gilydd, er eu bod yn barod i gydweithio gyda cholegau: nododd un Swyddog *"mae'r ysgolion yn gweld ei gilydd fel ymerodraethau... maent yn barod i gydweithio gyda darparwyr eraill mewn rhannau eraill o Gymru, ond nid ydynt am sefydlu amserlenni ar y cyd o fewn pob sir"*.
- 3.22 Ymddengys mai un rheswm dros amharodrwydd dysgwyr i gydweithio yw ofn colli dysgwyr: fel a nododd un Swyddog, *"yng nghanolbarth Cymru mae llawer gormod o ddarparwyr nad ydynt am gydweithio rhag ofn eu bod yn colli dysgwyr"*.
- 3.23 Mewn ardaloedd gwledig, teimlodd rhai Swyddogion fod pellter daearyddol *"yn gwneud [cydweithio'n] fwy anodd - ond fe'i defnyddir yn aml fel esgus"* ac eto, yn aml, ofn colli dysgwyr yw'r rheswm dros yr amharodrwydd hwn i gydweithio.
- 3.24 Mae'n debygol mai argaeledd ariannu fydd yn penderfynu a yw cydweithio ystyrion yn cael ei gynnal gan rai partneriaethau yn yr hirdymor neu beidio. O ran prosiectau fideo-gynadledda, nododd un Swyddog *"ei fod yn rhy gynnar i ddweud - mae'n dibynnu i ba raddau y defnyddir y cyfarpar a phwy sy'n arwain beth"*.
- 3.25 Cafwyd awgrymiadau hefyd bod diffyg cydweithio mewn rhai ardaloedd rhwng yr AALI a'r rhwydwaith 14-19, *"mae AALlau'n tueddu i ganolbwyntio ar ysgolion ac maent ond yn dechrau sylweddoli pa mor bwysig yw gweithio gyda SAB a darparwyr dysgu seiliedig ar waith"*.

Darpariaeth dysgu gynaliadwy ar y cyd

- 3.26 Yn ôl llawer o swyddogion, mae cynaladwyedd gweithgareddau a ariennir gan CIF yn dibynnu ar bersonoliaethau a dyheadau'r rheiny sy'n ymwneud â hwy. Fodd bynnag, os ystyrir bod y gweithgareddau a symbylwyd gan yr arian wedi bod yn llwyddiannus, gallai darparwyr fod yn fwy tebygol o fabwysiadu ymagwedd hirdymor ac ymchwilio i sut y gellid parhau â'r gweithgareddau trwy ariannu craidd. Awgrymwyd bod angen diwygio ffrydiau ariannu eraill i annog mwy o gydweithio.
- 3.27 Teimlodd rhai Swyddogion fod prospectws CIF 2 a'r broses asesu'n annog darparwyr i 'ymgorffori' cynaladwyedd yn eu prosiectau; teimlodd rhai eraill nad oedd y broses 14-19 mor eglur ynglŷn â'r mater hwn.

Materion i'w Hystyried Ymhellach

- 3.28 Cafwyd cefnogaeth ymhlith yr holl gyfweleion y dylid datblygu CIF - neu ffrwd ariannu gyda chylch gwaith tebyg - ar gyfer y dyfodol. Nododd un Swyddog *"mae'n rhoi cyfle i ddarparwyr wella'r ddarpariaeth"*
- 3.29 Cafwyd peth anghytuno ynghylch hyd unrhyw gynllun newydd, gyda rhai swyddogion yn nodi bod *"prosiectau un flwyddyn yn iawn - maent yn rhoi hwb i weithgareddau y dylid eu prif-frydio"*. Nododd Swyddogion eraill yn bendant y gallai cylchoedd ariannu tair blynedd fod yn fwy priodol, gan roi amser i 'lunio' cynigion.
- 3.30 Teimlwyd hefyd y gellid cydweddu ag unrhyw gynllun yn y dyfodol drwy ddefnyddio, er enghraifft, 'hyrwyddwyr cydweithio'. Ar ben hynny, mae gan ddarparwyr megis ysgolion ychydig iawn o brofiad o ddylunio cynigion a rheoli prosiectau - gallai darparu cefnogaeth o'r fath fod yn elfen ddefnyddiol mewn unrhyw gynllun yn y dyfodol.
- 3.31 Awgrymwyd bod angen i APADGOS nodi a gorfodi'n fwy pendant yr hyn mae'n ei olygu gan 'gydweithio' a'r hyn mae eisiau ei weld mewn prosiectau: *"gallai ymagwedd arweiniad 'meddal' gynhyrchu mwy o hyblygrwydd, ond mae angen i'r Cynulliad fod yn fwy eglur ynghylch yr hyn mae ei eisiau er mwyn gorfodi newid"*.
- 3.32 Codwyd cwestiynau hefyd ynghylch yr elfen gyfalaf barhaus mewn cynllun o'r natur hon, gydag ansicrwydd y gall gwariant cyfalaf gyflawni newid effeithiol ar sail gweithio ar y cyd: *"Mae CIF yn ymwneud ag ymarferoldeb a glasbrintiau - dod i wybod beth mae pobl eisiau'i wneud cyn dyrannu'r cyfalaf"*.

4. Arweinwyr a Phartneriaid Prosiectau CIF: Canfyddiadau Cyfweiliadau

Cyflwyniad

- 4.1 Ymgynghorwyd â 29 o Arweinwyr Prosiectau ac 8 o Bartneriaid Prosiectau ynghylch eu barn am ddy lunio, cyflwyno ac effaith Cam 2 CIF.
- 4.2 Roedd canfyddiadau allweddol Ymgynghori Cam 1 yn cynnwys y canlynol:

- Roedd llawer o Arweinwyr Prosiectau wedi gweithio ar y cyd yn y gorffennol ac, mewn rhai achosion, defnyddiwyd CIF 1 i adeiladu ar bartneriaethau presennol a'u datblygu.
- Ystyriwyd gan lawer bod diffyg eglurder i broses y cynigion a bod ei graddfa amser yn rhy fyr ar gyfer ymgynghori'n effeithio â'r holl bartneriaid.
- Roedd y rhan fwyaf o'r prosiectau dan sylw yn ymwneud ag un math o weithgaredd a'r rhai mwyaf cyffredin oedd *'datblygu gweithgaredd cwricwlaidd newydd'* a *'hyfforddi staff ar y cyd'*.
- Datblygwyd y rhan fwyaf o'r prosiectau wrth ymateb i anghenion a nodwyd ymlaen llaw neu fylchau yn y ddarpariaeth.
- Teimlodd rhai Arweinwyr na fyddai modd iddynt dynnu ar ffynonellau ariannu eraill i ariannu prosiect CIF yn y dyfodol, ond teimlodd eraill na chafwyd digon o amser i ymgorffori'r prosiectau i wneud hyn.
- Ystyriwyd bod CIF yn gatalydd da i weithio ar y cyd; fodd bynnag roedd rhwystrau rhwng darparwyr yn amlwg, ar ffurf cystadleuaeth a diffyg ffydd.
- Ystyriwyd bod darpariaeth Gymraeg a dwyieithog wedi cael eu gwella.
- Ymhlith yr ystyriaethau ar gyfer datblygu yn y dyfodol oedd: diwygiadau i amseru, o ran amser i *'lunio'* a chwblhau prosiectau; cynladwyedd prosiectau a pharhad ariannu; a llai o weithdrefnau monitro biwrocraidd sy'n cymryd llawer o amser.

Partneriaethau

- 4.3 Roedd mwyafrif y partneriaethau'n cynnwys cyfuniad o'r AALI, coleg/au ac ysgolion, gyda'r AALI neu'r coleg yn cymryd y rôl arweiniol fel arfer. Cymerodd AALLau rolau

arweiniol ar yr holl brosiectau 14-19. Ymhlith yr enghreifftiau mwy diddorol o bartneriaethau prosiectau oedd prosiect a arweiniwyd gan Goleg Iâl, gyda nifer o gyflogwyr ac undebau llafur lleol fel partneriaid, gyda'r nod o hyrwyddo hyfforddiant sgiliau sylfaenol yn y gweithle. Gan gydnabod yr angen am integreiddio hyfforddiant â phatrymau shifftiau, gweithiodd y Coleg hefyd gyda Learndirect i ddatblygu mynediad i hyfforddiant sgiliau sylfaenol y tu allan i oriau craidd.

- 4.4 Roedd y rhan fwyaf o bartneriaethau dysgu wedi'u sefydlu'n hyblyg, gydag arian CIF 2 i ganiatáu iddynt "*adeiladu ar y sylfaen dystiolaeth a gwella*". Mewn llawer o achosion, er bod sefydliadau neu'r AALI wedi cael eu henwebu fel arweinwyr at ddibenion ariannu a gweinyddol, yn ymarferol roedd yr holl bartneriaid yn "*gyfartal, fwy neu lai*".
- 4.5 Roedd partneriaethau'n tueddu i gwrdd yn ffurfiol yn rheolaidd ond tueddodd nifer sylweddol i gael cyfarfodydd mwy ad hoc.

Sail resymegol y prosiectau

- 4.6 Roedd sail resymegol y rhan fwyaf o'r prosiectau'n seiliedig ar anghenion a nodwyd a/neu flaenoriaethau a ddeilliodd o strategaethau lleol neu ranbarthol. Er enghraifft, yng Nghastell-nedd Port Talbot, CCET oedd ysgogydd nodau ac amcanion y prosiectau CIF. Roedd materion sy'n gysylltiedig â lefelau isel o sgiliau, dyheadau isel a diweithdra uchel yn yr ardal wedi amlygu'r angen am gynyddu cyflogadwyedd ac ethos gwaith pobl leol, ac roedd wedi ymgynghori â chyflogwyr lleol a'r sector gwirfoddol i geisio eu barn.
- 4.7 Cyfeiriodd nifer o brosiectau at '*Greu'r Cysylltiadau*' wrth esbonio sail resymegol eu prosiect, er enghraifft: Datblygodd Coleg Menai '*Memorandwm o Ddealltwriaeth*' gyda Hyfforddiant Môn i gyflwyno cyrsiau i'r diwydiant modur ar ôl cydnabod nad oedd digon o ddysgwyr i gyfiawnhau cyrsiau yn y ddau sefydliad; soniodd Castell-nedd Port Talbot fod "*angen am gyflawni arbedion*" ar draws ffiniau'n ystyriaeth wrth ddatblygu eu prosiect.
- 4.8 Datblygwyd Is-ganolfan Alwedigaethol Rhondda Cynon Taf ar y cyd gyda Choleg Morgannwg i gyflwyno cyrsiau galwedigaethol mewn nifer o feysydd blaenoriaeth megis adeiladu a chynnal a chadw adeiladau. Ystyriwyd bod is-ganolfannau llai'n fwy cynaliadwy a llai dwys o ran staff nag un ganolfan fawr. Ar ben hynny, elwodd yr ysgolion drwy gadw dysgwyr a chafodd y coleg fwy o ddysgwyr ar ôl iddynt gwblhau'r cyrsiau cychwynnol yn y ganolfan.
- 4.9 Yng ngogledd Cymru, datblygwyd prosiectau 14-19 CIF 2 Sir Ddinbych, gyda'r nod o estyn opsiynau i bobl ifanc 16-19 oed oherwydd iddynt gydnabod "*safonau gwael ac ychydig iawn o ddewis i ddysgwyr*" yn yr awdurdod. Roedd prosiect Hamdden Awyr

Agored CIF 2 Cyngor Casnewydd yn seiliedig ar yr angen am gynyddu cyfleoedd dysgu ôl-16 anffurfiol a ffurfiol a chyflawni canlyniadau mwy meddal megis hunanhyder cynyddol ymhlith dysgwyr.

- 4.10 Defnyddiodd nifer o brosiectau, e.e. Offeryn Asesu Cyffredin (CIF 2) Coleg Glannau Dyfrdwy a *'Discovering Skills – Getting Back on Track'* (CIF 2) Cyngor Caerffili weithio ar y cyd rhwng darparwyr i rannu gwybodaeth ynghylch myfyrwyr i oresgyn bylchau mewn gwybodaeth pan fydd myfyrwyr yn trosglwyddo rhwng darparwyr. Mae datblygu system ar-lein i storio data'n golygu nad oes angen asesu myfyrwyr dwywaith.

Lefelau cydweithio cyn CIF

- 4.11 Roedd y mwyafrif helaeth o Arweinwyr Prosiectau wedi ymgymryd â rhywfaint o weithio ar y cyd gydag amrywiaeth o sefydliadau cyn CIF. Mae'n ymddangos bod mathau o fentrau y gweithwyd ar y cyd arnynt wedi amrywio rhwng prosiectau ad hoc a ariannwyd gan Ewrop (e.e. o dan Urban II) i fentrau mwy parhaus. Mewn rhai achosion, roedd yn ymddangos bod cydweithio'n dibynnu ar argaeledd arian: ymddengys mai CIF yw'r unig ffynhonnell arian lle roedd gweithio ar y cyd yn broses ac *"yn ganlyniad"*.

Rheoli a chyflwyno

Proses y cynnig

- 4.12 Yn ôl y rhan fwyaf o'r gyfweleion, roedd proses y cynnig yn glir ac yn syml, yn enwedig o'i chymharu â ffynonellau ariannu eraill - er enghraifft Cronfa Gymdeithasol Ewrop.
- 4.13 Mynegwyd rhai pryderon nad oedd y ffurflenni cais wedi'u 'cydlynu'n' ddigonol â ffrydiau a mentrau eraill megis Braenaru Daearyddol a CIF 1.

Rheoli a chyflwyno

- 4.14 Yn anochel, amlygwyd yr oedi wrth roi contractau gan y mwyafrif helaeth o gyfweleion fel problem sylfaenol y cynllun, gan arwain at brosiectau yr oedd rhaid eu cwblhau o fewn graddfeydd amser amhriodol o dynn.
- 4.15 Ar y dechrau, ystyriwyd bod y gofynion monitro ac adrodd yn syml ac yn dryloyw. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, mynegodd Arweinwyr Prosiectau bryderon bod monitro wedi mynd yn fwy o faich tuag at ddiwedd y cyfnod ariannu *"gwelwyd bod y cyfathrebu*

*parhaus a'r adrodd misol yn ormodol. Yn y gorffennol rwyf wedi rheoli prosiect £5 miliwn a ariannwyd gan Ewrop a ofynnodd am adrodd bob 6 mis yn unig*¹³.

Effaith a Chanlyniadau

Llwyddiant y prosiect

- 4.16 Cydnabyddodd holl Arweinwyr a Phartneriaid Prosiectau y gellir ystyried bod eu prosiectau'n llwyddiannus yn y tymor byr o leiaf. Mae'n bosib na fydd tystiolaeth fwy pendant o lwyddiant ar gael am dipyn o amser, yn enwedig ar gyfer y prosiectau hynny sy'n ymwneud â fideo-gynadledda neu RhAD na fyddant yn cael eu rhoi ar waith tan ddechrau blwyddyn academaidd 2007/2008.
- 4.17 Yn ôl partner un prosiect, cwmni mawr yng ngogledd Cymru, roedd y prosiect sgiliau sylfaenol yr oedd yn ymwneud ag ef *"yn hynod lwyddiannus. Roedd llawer o'n gweithwyr yn cael anhawster gyda mathemateg, felly anfonodd y coleg diwtor a asesodd eu hanghenion ac a ddyluniodd hyfforddiant wedi'i deilwra - nid yw cyllideb hyfforddi ein cwmni'n darparu ar gyfer hyfforddiant fel hyn"*.
- 4.18 Teimlodd arweinydd un prosiect e-ddysgu yng nghanolbarth Cymru bod y graddfeydd amser byr wedi arwain at *"anawsterau wrth gwrdd â thargedau, roedd yn gyfle gwyh ond nid oedd digon o amser iddo ddatblygu"*.

Canlyniadau'r prosiect

- 4.19 Ystyriwyd bod y prosiectau'n cynnig gwerth boddhaol am arian. Nododd arweinydd un prosiect fod *"y canlyniadau'n dda iawn ac maent wedi creu etifeddiaeth barhaol"*. Fodd bynnag, teimlodd llawer o Arweinwyr Prosiectau ei fod *"yn rhy gynnar i weld"* a oedd eu prosiectau wedi effeithio ar ddysgwyr, gan awgrymu dychwelyd atynt ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2007 - 2008 i archwilio'r elfen hon.
- 4.20 Ar sail diddordeb cychwynnol dysgwyr, rhagfynegwyd canlyniadau da gan Arweinwyr Prosiectau, yn enwedig o ran niferoedd dysgwyr: nododd Arweinydd Prosiect prosiect gwasanaethau manwerthu a defnyddwyr *"rydym yn gobeithio cael 30 o ddysgwyr yn y flwyddyn gyntaf a 50 yn yr ail, ond i ddweud y gwir, mae'n rhy gynnar i ymrwmo i ffigurau pendant"*; roedd prosiect sydd wedi datblygu is-ganolfannau galwedigaethol eisoes wedi cael ei ddefnyddio'n dda gan fyfyrwyr, a nododd ei Arweinydd, *"rydym yn disgwyl y bydd diddordeb yn cynyddu'n fwy wrth i gyfleusterau gael eu defnyddio ac*

¹³Yn ôl APADGOS, mewn rhai amgylchiadau, cynyddwyd gweithgareddau monitro tua diwedd y cyfnod ariannu prosiectau oherwydd nad oedd rhai darparwyr wedi darparu'r wybodaeth angenrheidiol y cytunwyd arni yn y contract neu oherwydd pryderon na fyddai prosiectau'n cael eu cwblhau.

wrth i fyfyrwyr weld yr hyn maent yn ei gynnig". Yn y tymor hir rhagwelir y bydd y prosiect yn cynyddu lefelau galwedigaethol ac yn "ailffocysu blaenoriaethau staffio ar yr anghenion".

- 4.21 Disgwylir y bydd y gweithgareddau a ariennir gan brosiect hamdden awyr agored Cyngor Casnewydd yn cael eu defnyddio gan y mwyafrif o'r ysgolion cynradd yn yr ardal, ac mae hefyd wedi denu diddordeb gan y sector gwirfoddol a chwmnïau lleol, gan nodi y bydd gweithgareddau'r Prosiect yn hunangynhaliol yn y tymor canolig.
- 4.22 Mae prosiect sy'n hyrwyddo hyfforddiant sgiliau sylfaenol yn y gweithlu wedi cynyddu hygrychedd a lefelau derbyn cyrsiau sgiliau sylfaenol a nododd un partner prosiect, sy'n gyflogwr *"mae wedi lleihau unrhyw stigma canfyddedig sy'n gysylltiedig â hyfforddiant sgiliau sylfaenol. Ar ben hynny, erbyn hyn gall chyfranogwyr helpu eu plant"*. Nododd Partner Prosiect arall fod eu cwmni erbyn hyn yn buddsoddi mwy o arian mewn hyfforddiant sgiliau sylfaenol: *"nid oeddem wedi rhagweld y costau enfawr a'r galw am hyfforddiant sgiliau sylfaenol. Mae'r prosiect wedi gweithio'n dda iawn, gan sicrhau nad oes unrhyw stigma'n gysylltiedig â mynychu cwrs sgiliau sylfaenol"*.
- 4.23 Caniataodd prosiect sydd â'r nod o gynnwys unigolion nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant i bartneriaid ymchwilio i ffyrdd o weithio gyda'r grŵp hwn, gan nodi ffyrdd addas o integreiddio i gyflwyno 14-19 yn y dyfodol. Mae Arweinydd y Prosiect hefyd yn nodi eu bod wedi ymgynghori â chyfranogwyr am eu barn a chan mwyaf, roedd y rhain yn gadarnhaol.
- 4.24 Ni fyddai'r rhan fwyaf o'r gweithgareddau prosiect wedi datblygu i'r graddau y gwnaethant heb CIF, nododd arweinydd un prosiect *"byddai'r prosiect wedi bod yn fwy anodd heb yr arian ac ni fyddem wedi cael y bobl i'w gefnogi. Wrth symud ymlaen, mae'n bosib y bydd yn anodd ei gadw ar y lefel mae wedi'i gyrraedd erbyn hyn"*.

Cydweithio: Llwyddiant a Rhwystrau

- 4.25 Yn gyffredinol roedd Partneriaid Prosiectau'n fodlon ar drefniadau partneriaeth ac nid oes tystiolaeth bod pobl yn teimlo eu bod wedi'u 'gadael ar eu hôl', gan awgrymu bod y partneriaethau'n wirioneddol cydweithredol eu natur.
- 4.26 Nododd Partner Prosiect yn ne-orllewin Cymru bod CIF *"yn galluogi partneriaid i weithio i gryfderau a galluoedd ac er bod y coleg wedi arwain y prosiect yn gyffredinol, roeddent yn hapus i adael i'r AALI arwain rhai elfennau"*.
- 4.27 Mewn un ardal, awgrymwyd mai un o'r prif lwyddiannau oedd newid mewn agweddau; *"mae darparwyr yn dechrau sylweddoli na allant i gyd gael yr un cyfleusterau"*, gan gyfrannu at rai o nodau allweddol CIF, sef lleihau dyblygu a chreu dewis i ddysgwyr.

- 4.28 Mae'r rhan fwyaf o Arweinwyr Prosiectau'n cydnabod mai drwy bartneriaeth gweithio ar y cyd yn unig y gellir cyflawni'r hyn maent wedi'i gyflawni, gydag Arweinydd y Prosiect yn nodi *"mae angen cydweithio ar 14-19, ni allai un sefydliad unigol ei gyflwyno ar ei ben ei hun"*.
- 4.29 Mewn un ardal, roedd y prosiect ar draws awdurdodau wedi annog darparwyr i ddatblygu dealltwriaeth o'i gilydd a gweithio gyda'i gilydd, *"roedd rhai ysgolion yn ystyried eu bod yn eithaf annibynnol - cynyddodd y prosiect ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r hyn sy'n digwydd ar ôl 16 mewn colegau"*.
- 4.30 Mae'n ymddangos bod rhannu gwybodaeth ac arfer da'n fantais sylfaenol sydd wedi dod allan o'r partneriaethau cydweithredol, er enghraifft awgrymodd un coleg a oedd yn bartner mewn prosiect fod *"gweithio ar y cyd yn galluogi cyfnewid gwybodaeth yn well, gan helpu darparwyr a dysgwyr"*. Mewn un ardal, roedd y coleg yn ymwybodol o waith a gyflawnwyd gyda NEETs yng ngorllewin Cymru, a threfnwyd cynhadledd fideo ar gyfer y rheiny dan sylw, nododd yr arweinydd na fyddai hyn wedi digwydd heb weithio ar y cyd.
- 4.31 Nododd Partner Prosiect, cyflogwr mawr fod *"y coleg wedi ein helpu i ddod o hyd i arian, roedd yn rhwystredig cyn hynny am nad oeddem yn gwybod beth oedd ar gael"*. Yn yr un modd mae'r Coleg yn gwerthfawrogi'r ffaith bod cwmnïau lleol erbyn hyn yn fwy ymwybodol o'i weithgareddau.
- 4.32 Mae'n anochel mai graddfeydd amser oedd y rhwystr mwyaf cyffredin a nodwyd gan arweinwyr a phartneriaid fel ei gilydd. Mewn un ardal roedd rhaid dychwelyd arian CIF am fod gwaith adeiladu wedi'i ohirio oherwydd problemau adeileddol nad oedd modd eu datrys o fewn graddfeydd amser CIF (mae hyn wedi cael ei ariannu o dan grant arall erbyn hyn).
- 4.33 Nodwyd biwrocratiaeth yn aml fel rhwystr i gydweithio, er enghraifft, nododd un ysgol oedd yn Bartner Prosiect ei bod yn cael *"cysylltu â hierarchaeth y coleg yn anodd oherwydd y fiwrocratiaeth"*. Gwelodd Partner Prosiect a oedd yn AALI fod y *"broses yn cael ei harafu am fod rhaid i'r colegau wirio gyda'u byrddau beth y gellid ei wneud, tra bod yr AALI yn gweld partneriaeth fel blaenoriaeth"*.

Ymgorffori cydweithio

- 4.34 Mynegodd llawer o Arweinwyr a Phartneriaid Prosiectau ddyhead i barhau â chydweithio. Fodd bynnag mewn llawer o achosion byddai hyn yn dibynnu ar arian - nododd un Partner Prosiect, sef ysgol, *"byddem i gyd yn hoffi gweld y cydweithio'n parhau ond mae angen arian i ryddhau staff arnaf i a phartneriaid eraill"*. Pwysleisiwyd y teimlad hwn gan gyfwelai arall, *"rydym wedi elwa'n unigol o'r prosiect hwn - gallai*

cynnal y partneriaethau heb yr arian fod yn anodd." Mewn un ardal, teimlodd arweinydd prosiect yr AALI fod rhai ysgolion yn parhau'n amheus ynghylch cydweithio a bod ganddynt *"ormod o bryderon ynghylch gostyngiad mewn niferoedd dysgwyr i sylweddoli'r cryfderau a geir o gydweithio"*.

- 4.35 Ar gyfer yr ardaloedd hynny lle mae hanes hir o weithio ar y cyd, roedd yn ymddangos bod cydweithio rhwng darparwyr yn rhan integredig o ddarparu addysg a hyfforddiant Ôl-16 yn yr ardal. Nododd Partner Prosiect yn ne-ddwyrain Cymru *"ein bod yn ceisio parhau â'r cydweithio, mae CIF wedi hwyluso perthnasoedd sydd eisoes yn bodoli a dod â mwy o bartneriaid i'r dasg"*.
- 4.36 Amlygwyd nifer o enghreifftiau o barhau â chydweithio y tu hwnt i ddiwedd CIF. Erbyn hyn mae'r prosiect sgiliau sylfaenol yn y gweithle ar fin cael ei gyflwyno i gyflogwyr eraill nawr bod ei lwyddiant yn amlwg; mae partneriaeth gydweithio arall eisoes wedi cael ei datblygu ac yn ymuno ag awdurdodau lleol eraill, ac mae'r sector manwerthu a thai i gyflwyno cais am arian cydgyfeirio i ariannu prosiect cyfalaf yng Nglyn Ebwy.

Materion i'w Hystyried Ymhellach

- 4.37 Yn gyffredinol, ystyrir bod CIF yn ffordd ardderchog o annog cydweithio, gyda phartner un coleg yn nodi *"bod arian prif-ffrwd yn cael ei frigidorri, gan olygu bod ein gallu i barhau i weithio gyda'r gymuned ehangach wedi cael ei rwystro. Galluogodd CIF beth parhad o ran cyflwyniad"*.
- 4.38 Teimlodd y rhan fwyaf o Arweinwyr Prosiectau fod angen diwygio'r graddfeydd amser ynghyd â *"strategaeth, canlyniadau ac ysgogiadau a ddiffinnir yn glir er mwyn symud pethau ymlaen"*. Gan ailadrodd barn rhai swyddogion APADGOS, teimlodd llawer o arweinwyr y byddai cylch ariannu tair blynedd yn briodol, gan ganiatáu cynllunio strategol a *"rhoi amser i ymgorffori gweithrediadau a chyfle i ddarparu sail bendant"*.
- 4.39 Sylwodd nifer o Arweinwyr ar yr angen am sicrhau bod CIF a'i ganlyniadau wedi'u halinio â ffrydiau ariannu a mentrau eraill APADGOS; *"nid yw'r Cynulliad yn caniatáu i CIF ffynnu a gwneud cynnydd drwy ei raglenni eraill"*.
- 4.40 Mae ystyried anghenion rhanbarthol yn elfen arall y teimlodd llawer o gyfweleion y dylid rhoi mwy o ystyriaeth iddi. Yn ôl rhai cyfweleion, wrth ddylunio rhaglenni'r dyfodol, mae angen mwy o ymgynghori â swyddogion APADGOS rhanbarthol sy'n deall eu hanghenion a'u partneriaethau lleol; teimlodd Arweinydd arall y gallai prosiectau CIF rhanbarthol fod yn ymarferol i sicrhau bod prosiectau'n cael eu halinio â blaenoriaethau CCET.

5. Casgliadau ac Argymhellion

Cyflwyniad

- 5.1 Mae'r adroddiad terfynol hwn wedi dychwelyd i ganfyddiadau'r gwerthusiad o Gam 1 ac yn cyflwyno canfyddiadau o'r gwerthusiad o Gam 2. Mae nifer o themâu a materion cyffredin wedi dod o'r ddwy set o ganfyddiadau.
- 5.2 Yn yr adran hon, ystyrir casgliadau o Gam 1 a Cham 2 y gronfa yn erbyn amcanion ffurfiol y gwerthusiad - gan arwain at argymhellion dylunio a chyflwyno rhaglenni yn y dyfodol

Casgliadau

Amcan i: A oedd cyfiawnhad gwreiddiol ('rhesymeg ymyrryd') y Cynllun yn deilwng ac a yw'n berthnasol o hyd?

Casgliadau Cam 1

- 5.3 Daeth y gwerthusiad o Gam 1 i'r casgliad fod y cynllun wedi'i gyfiawnhau ac yn berthnasol er bod cryn dipyn o gydweithio wedi bod yn digwydd mewn llawer o ardaloedd cyn i'r gronfa gael ei chyflwyno.
- 5.4 Yn achos y rheiny nad oeddent erioed wedi cydweithio o'r blaen, roedd CIF wedi darparu cyfle i ddod â sefydliadau at ei gilydd a gweithio mewn ffordd nad oeddent erioed wedi'i wneud o'r blaen. Lle cafwyd cyfradd sylweddol o gydweithio eisoes, roedd CIF wedi rhoi cyfle iddynt fynd ymhellach nag y byddent fel arall. Roedd CIF wedi galluogi partneriaethau cydweithio dyfnach ac wedi darparu rheswm i gydweithio i'r rheiny a oedd yn amharod ei wneud yn flaenorol.

Casgliadau Cam 2

- 5.5 Mae canfyddiadau a dynnwyd o'r gwerthusiad o gam 2 yn nodi bod sail resymegol ymyrryd CIF wedi'i chyfiawnhau o hyd. Mewn system ariannu yr ymddengys ei bod yn annog cystadlu rhwng darparwyr, mae CIF yn cynrychioli cyfle pwysig i hyrwyddo cydweithio a chynyddu dewis dysgwyr ac ar yr un pryd, lleihau costau.

- 5.6 Mae'r arian ar gyfer y cam hwn wedi galluogi partneriaethau sydd eisoes yn bodoli i sefydlu eu hunain yn well a chael gwell dealltwriaeth o'u nodau a'u hamcanion. Mewn llawer o achosion roedd y trefniadau gweithio ar y cyd ar gyfer Cam 1 yn fregus ac mae'r ail gam ariannu hwn wedi rhoi cyfle iddynt ddatblygu. Mae gan ddarparwyr well dealltwriaeth o'i gilydd; mae llai o ddrwgdybiaeth wedi arwain at gydweithio sy'n fwy effeithiol.
- 5.7 Mae'n rhaid codi cwestiynau o ran effaith strategol dyrannu swm mor fach o arian cyfalaf. Er enghraifft, gellid codi cwestiynau ynghylch effaith hirdymor a chynladwyedd prynu 20 gliniadur. Ar ben hynny mynegwyd pryderon y gallai rhai elfennau cyfalaf a ariannwyd gan CIF fod wedi dyblygu ymdrechion rhai cynlluniau ariannu eraill.

Amcan ii: I ba raddau mae'r cynllun yn gyffredinol wedi cael ei ddylunio a'i farchnata'n effeithiol ac yn effeithlon, gyda chynigion yn cael eu hasesu, eu cyflwyno a'u rheoli gan LICC.

Casgliadau Cam 1

- 5.8 Er gwaethaf adborth a oedd yn dda'n gyffredinol, adroddodd y gwerthusiad o Gam 1 am nifer o faterion: graddfeydd amser byr i gyflwyno a datblygu cynigion; oedi wrth gymeradwyo cynigion, gan arwain at raddfeydd amser byrrach ar gyfer cwblhau prosiectau; a monitro ac archwilio gormodol sy'n cymryd llawer o amser.

Casgliadau Cam 2

- 5.9 Casglodd y gwerthusiad o Gam 2 ychydig iawn o sylwadau, os o gwbl, ynghylch amser i lunio cynigion; fodd bynnag, roedd pryderon ynghylch cyflwyno contractau a natur fiwrocraidd gorfod bodloni gofynion ariannu cyfreithiol yn gyffredin. Golygodd hyn fod llawer o gyfweleion yn teimlo nad oedd gan eu prosiectau gyfle i wireddu eu potensial llawn, gan arwain at faich cynyddol o ran rheoli prosiectau.

Amcan iii: A dderbyniwyd y cynigion ac, os cawsant eu cymeradwyo, a oeddent yn y meysydd blaenoriaeth hynny a nodwyd gan APADGOS ym mhrosiectws CIF?

Casgliadau Cam 1

- 5.10 Daeth y Gwerthusiad o Gam 1 i'r casgliad cyffredinol fod cynigion wedi'u cymeradwyo yn yr holl feysydd blaenoriaeth a nodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, gyda'r rhan fwyaf yn seiliedig ar anghenion a nodwyd.

Casgliadau Cam 2

- 5.11 Ymddengys bod datblygu prosiectws 'mwy tynn' i brosiectau CIF 2 yn y ffrwd ariannu hwn wedi arwain at brosiectau mwy soffistigedig sydd wedi'u dylunio'n well, gyda mwy o gyfeiriadau i flaenoriaethau rhanbarthol a chenedlaethol.
- 5.12 Fodd bynnag, mae'n rhaid nodi pryderon na chafwyd digon o ymgynghoriad ar y strategaeth ddwyieithog - yn y cam datblygu'r prosiectws nac yn y cam cymeradwyo cynigion.

Amcan iv: I ba raddau mae prosiectau CIF yn seiliedig yn ymarferol ar bartneriaethau dysgu gwirioneddol?**Casgliadau Cam 1**

- 5.13 Nododd y gwerthusiad o Gam 1 fod CIF wedi gwneud rhywfaint o gynnydd wrth ddatblygu '*partneriaethau dysgu gwirioneddol*', gyda nifer o bartneriaethau'n parhau y tu hwnt i'r cyfnod ariannu. Lle roedd partneriaethau wedi bodoli cyn CIF roeddent wedi cael eu cryfhau. Roedd CIF wedi helpu i leddfu teimladau cychwynnol o ddifffyg ffydd rhwng darparwyr i ryw raddau. Fodd bynnag, cydnabuwyd bod "*llawer o gynnydd i'w wneud o hyd*" ac roedd yn dal yn aneglur a fyddai prosiectau'n gynaliadwy ar ôl y cyfnod ariannu.

Casgliadau Cam 2

- 5.14 Fel a nodwyd eisoes, gallwn ddod i'r casgliad ar sail y gwerthusiad o Gam 2 fod partneriaethau wedi dechrau aeddfedu. Mae darparwyr wedi caffael gwell dealltwriaeth o'i gilydd ac wedi manteisio ar gryfderau ei gilydd. Fodd bynnag mae'n ymddangos bod rhai grwpiau o ddarparwyr yn dal yn well na rhai eraill o ran gweithio mewn partneriaeth. Mewn rhai ardaloedd, er enghraifft, mae ysgolion yn dal yn amharod i ffurfio partneriaethau gyda'i gilydd neu gyda darparwyr eraill.

Amcan v: A yw'r mewnbynnau i'r cynllun wedi arwain at weithgareddau, allbynnau a chanlyniadau arfaethedig y cynllun (fel a nodwyd yn Atodlen Reoli 8)?**Casgliadau Cam 1**

5.15 Nododd y gwerthusiad o Gam 1 fod CIF wedi arwain at lawer o weithgareddau, allbynnau a chanlyniadau a nodwyd yn Atodlen Reoli 8. Cafodd rhwystrau i gydweithio eu goresgyn neu o leiaf, eu trin; digwyddodd newidiadau mewn trefniadaeth ddysgu ôl-16 (neu o leiaf roedd cynlluniau wedi cael eu datblygu i wneud hyn); roedd cydweithio o ran datblygu'r cwricwlwm, addysgu ac amserlennu wedi digwydd (neu ymchwiliwyd i'r ymarferoldeb); galluogwyd dewis cynyddol i ddysgwyr drwy ddatblygu peth gweithgaredd cwricwlaidd; a chymerwyd camau sylweddol i wella darpariaeth ddysgu Gymraeg a dwyieithog.

Casgliadau Cam 2

5.16 Mae canfyddiadau'r gwerthusiad o Gam 2 yn cyfateb yn fras i'r rhai yng Ngham 1. Fodd bynnag, nid yw cynaladwyedd hirdymor yn sicr eto. Yn benodol gellir dadlau o hyd nad ydym wedi cyrraedd y pwynt lle mae penderfyniadau 'pendant' yn cael eu gwneud h.y. mae darparwyr yn dechrau 'ildio' dysgwyr.

Amcan vi: A yw'r cynllun yn gyffredinol yn cynnig 'gwerth am arian' (h.y. economi - mewnbynnau ar y gost isaf; effeithlonrwydd - cymhareb allbynnau i fewnbynnau; effeithiolrwydd - gwerth allbynnau yn erbyn maint y mewnbynnau)?

Casgliadau Cam 1

5.17 Daeth Cam 1 i'r casgliad fod y rhan fwyaf o'r prosiectau'n cyflawni eu hamcanion ac ystyriwyd yn gyffredinol eu bod yn debygol o fod yn cyflawni gwerth am arian. Roedd cynaladwyedd tymor hir yn bryder ar gyfer yr Hysbyswyr Allweddol ac Arweinwyr y Prosiectau, gyda llawer o brosiectau na fyddai modd iddynt barhau oherwydd diffyg ariannu tymor hwy. Arweiniodd graddfeydd amser byr at anawsterau o ran 'ymgorffori' prosiectau hefyd.

Casgliadau Cam 2

5.18 Gellir tynnu casgliadau sy'n debyg yn gyffredinol o'r gwerthusiad o Gam 2. Roedd prosiectau'n cyflawni eu hamcanion - er bod hynny o fewn graddfeydd amser byr. Fodd bynnag, mae'n bosib bod 'gwerth am arian' hirdymor wedi cael ei gyfaddawdu eto o ganlyniad i fethu ag ymgorffori prosiectau'n llwyr mewn gweithrediadau prif-ffrwd. O ran ariannu elfennau cyfalaf, mae angen nodi materion sy'n ymwneud ag effaith strategol hirdymor o hyd.

Amcan vii: Lefel, os o gwbl, o ychwanegedd, gan ystyried tystiolaeth o ddfuddiant, cyfnewid a dadleoli a grëwyd o ganlyniad i gyflwyno Cynllun CIF.

Casgliadau Cam 1

- 5.19 Ni ystyriwyd bod CIF wedi dyblygu amcanion cynlluniau ariannu eraill, er y cafwyd sylwadau y gallai fod wedi cael ei ddylunio'n well i gydweddu â chynlluniau megis y Gronfa Gwella Ansawdd a Braenaru Daearyddol. Cafwyd ychydig iawn o dystiolaeth o ddifuddiant, cyfnewid neu ddisodli ac roedd teimlad cyffredinol bod CIF yn annog gweithgareddau a dulliau gweithio na fyddent yn bosib gyda chynlluniau eraill.

Casgliadau Cam 2

- 5.20 Eto, gellir tynnu casgliadau sy'n debyg yn gyffredinol o'r gwerthusiad o Gam 2. Codwyd pryderon ynghylch y potensial i rai o'r gweithgareddau arian cyfalaf ddyblygu gweithgareddau eraill APADGOS, megis ariannu gwella ysgolion, a gallai fod angen ymchwilio iddynt yn fanylach wrth ddatblygu unrhyw raglenni ariannu yn y dyfodol.

Amcan viii: A yw'r cynllun wedi cyflawni'i nodau, sef: gwella ansawdd a dewis dysgu ôl-16, gan ddiwallu anghenion a nodwyd gan ddysgwyr yn well; dileu dyblygu diangen a bylchau yn y ddarpariaeth; gwneud y defnydd gorau o adnoddau LICC; a yw'r nodau hyn yn briodol o hyd?

Casgliadau Cam 1

- 5.21 Daeth y gwerthusiad o Gam 1 i'r casgliad y ceir tystiolaeth bod y cynllun wedi gwella ansawdd a dewis - o leiaf yn y tymor byr - a bod y mwyafrif helaeth o brosiectau'n seiliedig ar angen a nodwyd, neu'n ymwneud ag asesiad o ddarpariaeth ddysgu i nodi bylchau a dyblygu.
- 5.22 Codwyd cwestiynau ynghylch llwyddiant ymagweddau gweithio ar y cyd pan fydd angen gwneud '*dewisiadau caled*', e.e. darparwyr yn cyfaddawdu ac yn '*ildio*' cyrsiau a dysgwyr er mwyn dileu dyblygu. Cydnabuwyd bod CIF wedi cymryd cam bach - ond pwysig - tuag at ddileu rhai o'r rhwystrau traddodiadol rhwng darparwyr, megis diffyg ffydd a chystadlu. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o achosion, roedd "*yn rhy fuan*" i ddarparwyr ddechrau blaenoriaethu anghenion yr agenda ehangach dros eu nodau unigol a'u goroesiad, a bydd angen gwneud hynny er mwyn cyflawni nodau CIF yn gyfan gwbl.

Casgliadau Cam 2

- 5.23 Pwyntiodd y gwerthusiad o Gam 2 tuag at gynnydd parhaus yn y cyfeiriadau hyn. Cafwyd tystiolaeth bendant bod prosiectau wedi gwella dewis ac ansawdd i ddygwyr, gan ddileu bylchau yn y ddarpariaeth. Fodd, ni welir tystiolaeth o '*ddewisiadau pendant*' eto.

Amcan ix: A gafwyd unrhyw effeithiau anfwriadol neu annisgwyl i'r cynllun?**Casgliadau Cam 1**

5.24 Adroddodd y gwerthusiad o Gam 1 am rai effeithiau anfwriadol neu annisgwyl. megis gwariant ychwanegol, yn enwedig o ran staffio a phrynu cyfarpar cyfalaf o ganlyniad i'r cynllun. Roedd yr effeithiau mwy cadarnhaol yn cynnwys uno gwahaniaethau mewn diwylliant ac ethos rhwng colegau ac ysgolion.

Casgliadau Cam 2

5.25 Gan adlewyrchu, efallai, y ffaith bod y mwyafrif helaeth o Arweinwyr wedi cyfranogi yn y Cam ariannu cyntaf ac *'yn gwybod beth i ddisgwyl'*, adroddwyd am ychydig iawn, os o gwbl, o ganlyniadau anfwriadol sylweddol yn y cam hwn.

Amcan x: Pa effaith mae prosiectau CIF wedi'i chael ar ddysgwyr, gwaith partneriaeth a dysgu a hyrwyddir?**Casgliadau Cam 1**

5.26 Adroddodd y gwerthusiad o Gam 1 am effeithiau cymedrol ar ddysgwyr, gwaith partneriaeth a dysgu a hyrwyddir. Roedd y rhesymau dros yr effaith gyfyngedig yn cynnwys:

- Prosiectau graddfa fach sy'n arwain at effeithiau 'ffiniol'
- Canlyniadau ysgafn megis cydweithio gwell, cronni adnoddau, etc - sy'n anodd eu nodi neu eu meintoli;
- Rhoi ar waith a rwystrwyd gan raddfeydd amser tynn;
- Prosiectau sy'n gorfod goresgyn rhwystrau a achoswyd gan safbwyntiau disymud partneriaid, gan arwain at gynnydd cyfyngedig
- Arwyddion bod cefnogaeth ar gyfer prosiectau 'parod' wedi arwain at faterion sy'n gysylltiedig ag ychwanegedd.

5.27 Nododd y gwerthusiad na gofynnwyd yn uniongyrchol i **ddysgwyr** am eu barn, ac awgrymwyd y dylai fframweithiau gwerthuso ddarparu cyfleoedd i wneud hynny yn y dyfodol.

5.28 Nodwyd effeithiau a oedd yn gysylltiedig â **gwaith partneriaeth**, gyda llawer o arweinwyr prosiectau'n nodi yr hoffent barhau i weithio yn y dull hwn a bod cyflwyno ar y cyd yn hanfodol o ran cynaladwyedd hirdymor colegau a darparwyr.

5.29 Nodwyd gwelliannau wrth gyflwyno dysgu ac mewn rhai achosion, ystyriwyd y byddai'n gynaliadwy yn y tymor hir.

Casgliadau Cam 2

5.30 O'r prosiectau hynny a ddyluniwyd i effeithio'n uniongyrchol ar **ddysgwyr** (e.e. y rheiny a oedd wedi datblygu RhAD, deunyddiau cwrs a rennir, cyfarpar fideo-gynadledda), yn gyffredinol mae'n rhy gynnar i ddweud pa fath o effeithiau a gafwyd. Ni fydd modd nodi allbynnau gweithgareddau llawer o brosiectau'n llawn tan i gyrsiau newydd ddechrau cael eu cyflwyno ar ddechrau'r flwyddyn academaidd 2007/2008.

5.31 Mae'r cam ariannu hwn wedi caniatáu i **bartneriaethau** aeddfedu ac ymgorffori i'r pwynt lle byddant, yn y rhan fwyaf o achosion, yn parhau ar ryw ffurf y tu hwnt i CIF. Cafwyd tystiolaeth bod darparwyr yn dechrau sylweddoli sut y gallant elwa o'r ymagwedd.

5.32 Yn y tymor byr mae llawer o brosiectau wedi gwella cyflwyno dysgu. Bydd y defnydd cyffredinol o RhAD a fideo-gynadledda yn sicr o wella profiad dysgwyr. Fodd bynnag bydd hir oes llawer o'r gweithgareddau hyn yn dibynnu ar frwdfrydedd ac adnoddau'r bartneriaeth i'w cynnal a'u diweddarau.

Amcan xi: Beth sydd wedi llwyddo, pa rwystrau a wynebwyd, a beth gellid ei wella?

Casgliadau Cam 1

5.33 Er gwaetha'r '*gromlin ddysgu serth*' ar gyfer rhai prosiectau, adroddodd y gwerthusiad o gam 1 fod y gwaith partneriaeth a'r cyflwyniad ar y cyd a gychwynwyd gan CIF wedi bod yn llwyddiant mawr ar y cyfan. Roedd y rhwystrau traddodiadol o ddiffyg ffydd a chystadlu rhwng darparwyr dysgu ar lefel leol wedi lleihau rhywfaint fel pryder - er bod hyn yn ddechrau proses hir mewn llawer o achosion, ac roedd angen ysgogiadau megis arian ychwanegol er mwyn parhau â'r momentwm.

Casgliadau Cam 2

5.34 Mae'r gwerthusiad o Gam 2 yn nodi '*newid sylweddol*' pendant o ran rhwystrau. Er bod y rhwystrau traddodiadol megis diffyg ffydd a chystadlu rhwng darparwyr yn bodoli, rhoddwyd llai o bwyslais arnynt gan gyfweleion ac ymddengys bod rhwystrau megis graddfeydd amser byr wedi bod yn bwysicach yn y cam ariannu hwn.

Amcan xii: Gwneud argymhellion ar gyfer ail gam cynllun CIF o ran cynnwys, marchnata, cyflwyno a rheoli'r Cynllun a chydweddu â mentrau datblygol LICC megis Braenaru Daeryddol.

Casgliadau Cam 1

5.35 Roedd argymhellion allweddol Gwerthuso Cam 1 yn cynnwys y canlynol:

- Mae angen i arian gael ei ffocysu ar ganlyniadau blaenoriaeth clir (e.e. gwella dewis, lleihau cystadleuaeth) ac mae'n rhaid i ofynion o ran prosiectau fod yn fwy eglur. Gallai hyn arwain at brosesau rheoli a monitro mwy tryloyw a llai ymdrechgar.
- Mae angen rhoi pwyslais ar gydweithio strategol tymor hwy a gallai hyn arwain at nifer llai o brosiectau mwy.
- Mae angen i brosiectau dderbyn amser ar gyfer cam 'paratoi' er mwyn sicrhau bod ystyried amcanion hirdymor yn cael ei ymgorffori mewn prosiectau, gan arwain at fwy o brosiectau strategol a chynaliadwy.

Argymhellion Cam 2

5.36 Gwneir ein hargymhellion o fewn cyd-destun lle **na** disgwylir i gam pellach o arian CIF gael ei gynnig, ond **gellid** ystyried cefnogaeth gyda nifer o nodweddion tebyg rhyw bryd yn y dyfodol.

5.37 Gan hynny, mae ein hargymhellion yn ymwneud â phwyntiau dysgu o CIF y gellid eu mabwysiadu beth bynnag, ynghyd â phwyntiau mwy penodol rydym yn ystyried eu bod yn berthnasol ar gyfer unrhyw ymyraethau pellach i hyrwyddo gweithio ar y cyd.

Cydweithio

5.38 Mae gwella cydweithio, yn dilyn ysbryd '*Creu'r Cysylltiadau*' etc, yn parhau'r heriol ac yn debygol o ofyn am ymdrechion hirdymor. Ar hyn o bryd ymddengys bod diffyg eglurder o ran lefelau a mathau o gydweithio a ddymunir - yn enwedig pan ystyrir o hyd bod NPFS yn hyrwyddo elfennau o gystadlu rhwng darparwyr - a sut y gellir rhoi newidiadau priodol ar waith.

5.39 Yn gyffredinol felly, argymhellwn:

- fod APADGOS yn nodi ac yn lledaenu yr hyn a ystyrir yn enghreifftiau da o waith partneriaeth - yn enwedig ar ôl i 'ddewisiadau pendant' gael eu gwneud neu eu hystyried.

- bod APADGOS yn cyflawni gwaith pellach i grynhoi nodweddion allweddol gwaith partneriaeth a ddisgwylir gan ddarparwyr - gan dynnu ar waith y cynlluniau Braenaru amrywiol, CIF etc.
